# Y DINESYDD

Mawrth 2024 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 485 £1.20




Y band roc, Taran, criw o Ysgol Glantaf tud. 24




Ryseitiau Ysgol Hamadryad tud. 20

**Prif Lenorion Eisteddfod Caerdydd 2024** **tud. 6 a 7**







# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Miranda Morton**

***Golygydd Ebrill***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn **27 Mawrth** at:
hefinmathias@hotmail.co.uk
13 Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 2AR
029 20311240

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Tanysgrifiadau 2024/25 - £15 neu £25?

Daeth dros 80 o danysgrifiadau i law yn ystod mis Chwefror – y mwyafrif helaeth yn aildanysgrifiadau am y flwyddyn newydd – diolch i bawb.

Sylwi bod sawl un wedi talu £15 ond dylai fod yn £25 mewn gwirionedd. Mae'n wir fod y geirio ar y ffurflen danysgrifio ychydig yn amwys ond £25 yw'r tâl os derbyniwch gopi caled yn eich cartref drwy ddosbarthwr.

Mae'r geirio yng ngwefan dinesydd.cymru yn gliriach: 'Am danysgrifiad o £25 fe gewch gopi drwy ddrws eich tŷ (naill ai drwy law dosbarthwr neu drwy'r post.)

Mae'n wir fy mod yn ceisio osgoi postio copïau – ond gwnaf pan fo rhaid. Mae postio un copi unigol bellach yn £2.40 a phris amlen. Rydym yn codi prisiau o £18 i £25 ond y gwir gost erbyn hyn yw £40 – nid £25!

Mae ambell un wedi rhoi mwy na'r gofyn wrth aildanysgrifio – diolch am eich caredigrwydd.

Felly mae cyfle arall i chi aildanysgrifio yn ystod mis Mawrth – gwelir ffurflen danysgrifio gyda phob copi caled a dylai eraill dderbyn ffurflen electronig os taw copi pdf drwy e-bost yw eich dewis.

Afraid dweud ar gychwyn blwyddyn ariannol newydd ar ddechrau mis Ebrill taw nawr yw'r amser i geisio denu darllenwyr a thanysgrifwyr newydd ac ifancach gobeithio! Mae o leiaf hanner dwsin a mwy wedi marw yn ystod y flwyddyn – rhai wedi derbyn copïau ers blynyddoedd lawer.

*Gwilym Dafydd*
*(Tanysgrifiadau)*

---

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Daliwch yn uchel eich ysbryd"*

Mae hi'n 2024 ac ers y Flwyddyn Newydd dan ni wedi dathlu Gŵyl y Santes Dwynwen a Gŵyl y Ffolantau a bwyta crempog Ddydd Mawrth Ynyd a llyncu cawl cennin i ddathlu Gŵyl Ddewi a chyn bo hir rwan byddwn yn bwyta Wyau Pasg a chroesawu'r Gwanwyn i'n plith! Mae'r amser yn pasio fel y gwynt ac mae digon o ddigwyddiadau pleserus i edrych ymlaen atynt yn ystod y misoedd nesa megis Eisteddfod yr Urdd ym Meifod dros y Sulgwyn a Gŵyl Tafwyl a'r Genedlaethol ym Mhontypridd yn ystod yr haf.

Yn 79 oed bu farw'r seren rygbi Barry John a alwyd yn frenin y cae rygbi gan ddilynwyr rygbi Seland Newydd nôl yn 1972. Ac yntau ond yn 27 oed chwaraeodd ei gêm rygbi ola ar faes Parc yr Arfau mewn gêm fel rhan o ddathliadau Jiwbili'r Urdd a hynny rhwng Pymtheg Carwyn James a Phymtheg Barry John. Cafwyd noson fythgofiadwy a gwelwyd Barry John yn sgorio a'i dîm yntau yn fuddugol. On i'n bresennol yn y gêm a daliaf i gofio holl gyffro'r achlysur. Yn anffodus oherwydd yr holl sylw a'r pwysau arno oherwydd ei lwyddiant penderfynodd ddod â'i yrfa rygbi i ben. Bu ei benderfyniad hollol annisgwyl yn golled fawr i'r byd rygbi. Ond coffa da am y bachgen diymhongar o bentre Cefneithin yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Tŵr Marcwis ar Ynys Môn yn tynnu sylw pawb sy'n ymweld â'r ynys ac odd dringo dros gant o risiau i ben y Tŵr yn werth yr ymdrech er mwyn edmygu'r golygfeydd ysblennydd i bob cyfeiriad. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'r Tŵr ar gau i'r cyhoedd ond y newydd da ydy y bwriedir ail agor y Tŵr i ymwelwyr ar ôl gwelliannau i'r safle a hynny yn y Gwanwyn.

Mae Geraint Thomas wedi arwyddo cytundeb dwy flynedd arall gydag Ineos Grenadiers gyda'r bwriad o gystadlu eto yn y Râs Giro d'Italia a Râs Tour de France. Enillodd y Râs Tour de France yn 2018 a chafodd groeso gwresog yn ôl i Gaerdydd adeg Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yna y llynedd daeth yn ail agos yn y Râs yn yr Eidal. Felly pob lwc Geraint a diolch i ti am roi Cymru ar fap y byd!

Yn ddiweddar ymddangosodd llythyr yn y Wasg gan wraig o Frechfa yn Sir Gaerfyrddin odd newydd ymweld â Chapel Salem ger Llanbedr yng Ngwynedd sy wedi ei anfawroli yn llun yr arlunydd Curnow Vosper ac odd hi'n drist iawn i weld diffyg gofal o'r capel unigryw hwn ac yn gofidio am ddyfodol yr adeilad. Mae'r llun Salem ar waliau ugeiniau o gartrefi ledled Cymru ac mae'r llun gwreiddiol ym meddiant Amgueddfa Port Sunlight ger Lerpwl tra mae ail lun o Salem a baentiwyd ar gyfer brawd yng nghyfraith Vosper mewn stordy yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym mharc Cathays!

Eleni mae hi'n gan mlynedd ers geni'r llenor, awdur, pregethwr a chyfansoddwr, y gŵr amryddawn Islwyn Ffowc Elis a gafodd ei eni yn Wrecsam a'i godi yng Nglyn Ceiriog a gwasgarwyd ei lwch ar fryniau'r Berwyn wedi iddo farw yn 79 oed yn 2004. Mae cyfeillion a thrigolion Glyn Ceiriog yn trefnu nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn i goffáu y gŵr hwn a gafodd gymaint o ddylanwad ar ddarllenwyr ei nofelau ac yn arbennig ei nofel *Wythnos yng Nghymru Fydd*. Enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst yn 1951 am ei gyfrol *Cyn Oeri'r Gwaed* a bu'r gyfrol hon yn un o lyfrau gosod yn arholiadau Cymraeg ysgolion y wlad. Daeth un o'i ganeuon sef *Fy Llong Fach Arian i* yn boblogaidd iawn.

Yn ystod cystadleuaeth Rygbi'r Chwe Gwlad eleni gwelwyd Cymro Cymraeg o Sir Benfro ac o dras Eidalaidd un ochr ei deulu yn chwarae i'r Eidal. Mae Stephen Varney hefyd yn chwarae i dîm rygbi Caerloyw ar hyn o bryd. Mae Cymro Cymraeg arall sef Gethin Jones wedi bod yn chwarae pêl-droed i dîm pêl-droed Awstralia yn y Gystadleuaeth Bêl-droed Gwledydd Asia. Odd hawl ganddo i chwarae i Awstralia gan iddo gael ei eni yn Perth yng Ngorllewin Awstralia ond ei dad yn dod o ardal Porthmadog! Mae o'n chwarae pêl-droed i dîm Bolton Wanderers mae'n debyg ar hyn o bryd.

Ychydig amser yn ôl odd sôn am gysylltu pendraw Morglawdd Bae Caerdydd â Phenarth drwy godi ffordd fyddai'n mynd wrth droed y clogwyn rhwng y morglawdd a Phenarth. Oherwydd y gost gohiriwyd y trafodaethau ond ers hynny mae'r syniad wedi ei ail godi ond yn lle ffordd awgrymir adeiladu llwybr i gerddwyr a seiclwyr. Yn sicr byddai'r cynllun yn denu llawer o ymwelwyr ond y bwgan pennaf o hyd ydy'r gost a felly ar hyn o bryd mae Cynghorau Caerdydd a'r Fro yn dal i drafod y cynllun!

Wel, dyna ni am fis arall a felly tan y tro nesa daliwch yn uchel eich ysbryd er gwaethaf holl broblemau'r byd sy'n ddigon i godi'r felan ar bawb!


**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Merched y Wawr
# Y Felin

Buom yn trafod y byd ffasiwn yn ein cyfarfod mis Chwefror gyda Alisa MacCallum Williams, myfyrwraig ffasiwn yn Mhrifysgol De Cymru yn yr Atriwm, Caerdydd. Fel rhan o'i blwyddyn olaf fe rannodd gyda ni ei chasgliad terfynol a fydd yn cael ei arddangos yn sioe Ffasiwn Caerdydd rhwng 20-27 Ebrill. Bydd hyn yn ffrwyth tair blynedd o ddylanwadau ac arbrofi.


*Janet James ac Alisia MacCallum Williams*

Ers ei harddegau roedd Alisa yn gwybod ei bod am ddilyn gyrfa yn y byd ffasiwn. Roedd hi wastad yn cael ei hysbrydoli gan natur ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y printiadau mae yn eu dylunio ar ei ffrogiau. Mae hefyd wedi ei hysbrydoli gan ein treftadaeth Gymreig a bu'n ymchwilio am y wisg Gymreig, gan ddarllen am hanes y wisg mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Buom yn ddigon ffodus i weld y dyluniadau mae hi wedi bod yn gweithio arnynt dros y tair blynedd ddiwethaf a gweld sut mae wedi datblygu ei harddull ei hun.

Rhan bwysig o'r byd ffasiwn yw medru darogan beth fydd y dylanwadau y byddwn yn eu dilyn hyd at 2030. Wrth edrych yn ôl ar ffasiwn e.e. y 60au, 70au, 80au - hyd y sgertiau maxi, midi a mini, siâp y siaced, printiau blodeuog, ac *appliqué* - bydd elfennau o'r rhain fel y ryfflau a phrintiadau mân i'w gweld ar y stryd fawr yn fuan.

Cawsom gipolwg ar ei chasgliad terfynol ac roedd y dewis o liw o las tywyll a mwstard a phrint blodeuog yn fendigedig ac yn siŵr o ddenu sylw gan y cwmnïoedd ffasiwn. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i Alisa yn ei blwyddyn olaf a phan fydd yn cychwyn ar yrfa yn y byd ffasiwn.

Rydym yn cwrdd am 7.30 yh ar drydydd nos Iau y mis yn festri Capel y Methodistiaid, Ffordd Kelston, yr Eglwys Newydd. Mae croeso cynnes bob amser i aelodau newydd. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch mywyfelin@gmail.com neu gysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232.

# Merched y Wawr
# Bro Radur

Ifan Roberts, Pentyrch, ddaeth i roi sgwrs ar nos Fercher 7 Chwefror, a daeth nifer dda ynghyd i fwynhau gwledd o noson yn ei gwmni.

Wrth i'n llywydd, Eirian Dafydd, gyflwyno'r siaradwr, cawsom ar ddeall mai o Llanddona, Ynys Môn, y daw yn wreiddiol, ac iddo ddod i lawr i Gaerdydd i weithio yn S4C fel uwch-swyddog rhaglenni yn nechrau'r nawdegau. Cyn hynny bu'n gweithio fel cynhyrchydd rhaglenni gyda Radio Cymru ym Mryn Meirion, Bangor.

'Dod o hyd i Madge' oedd teitl chwareus ei gyflwyniad, a thrwy luniau a sain disg a thâp, cawsom daith gerddorol gyfareddol o Fôn ei fagwraeth i Covent Garden, Llundain; yr Eidal, Penllyn, a Llangïan ger safle Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.



Pan oedd yn blentyn ifanc, ac yntau'n gwella ar ôl triniaeth i'w ben-glin, cafodd anrheg arwyddocaol gan ei rieni, sef gramoffon hynafol ynghyd â phedair record. Wrth edrych yn ôl, meddai, roedd y recordiau braidd yn anaddas i blentyn oedran cynradd. Serch hynny, mwynhaodd wrando ar leisiau Triawd y Coleg ac eraill, a dechreuodd ar arfer oes o gasglu recordiau 78 rpm. Daeth yn gyfarwydd, er enghraifft, â doniau lleisiol David Lloyd, Madam Telini a Phaul Robeson.

Os hoffech wybod mwy am Madge, a chael gwybod a lwyddodd Ifan yn ei ymchwil, dyma beidio â difetha'r stori ond eich annog i lenwi'r bylchau a gwahodd Ifan Roberts ei hun i rannu'r hanes.

Cyn diwedd y noson, clywsom recordiad o lais angerddol David Lloyd yn canu 'Dyma Geidwad i'r colledig / Meddyg i'r gwywedig rai' ac 'Iesu, Iesu, rwyt ti'n ddigon / Rwyt ti'n llawer mwy na'r byd'.

Diolchwyd i Ifan Roberts am noson hwyliog a chofiadwy.

Y Parch. Ganon Aled Edwards yw'r gŵr gwadd ar 4 Ebrill, ac mae croeso i bawb i ymuno â ni yn Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, i glywed am ei waith diweddaraf gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

*Gwen Emyr*

# Colofn Natur

## *Yr Ŵydd Wyllt*



**Gethin Jenkins-Jones**

O feddwl am y dros ddau gant o rywogaethau o adar yng Nghymru, peth braf yw bod y rhan helaethaf ohonynt yn rhoi hoffter a chysur i'r rheini sy'n eu gweld a'u hadnabod. Nifer fach sydd efo enw drwg gan y mwyafrif. Mae'r colomennod yn enghraifft dda ac, yn anffodus, mae llawer yn casáu gwylanod hefyd. Heddiw dwi am ffocysu ar rywogaeth arall - ond aderyn a oedd unwaith yn hynod o bwysig i genedlaethau'r gorffennol, gan gynnwys y Cymry. Aderyn a oedd yn gyfrifol am siapio ein hanes a'n diwylliant, er na fyddwn byth yn meddwl hynny heddiw.



*Llun: Sarah Kelman*

Os cerddwch o gwmpas Parc y Rhath, un aderyn y byddwch yn sicr o'i weld pob tro, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, yw'r ŵydd wyllt. Weithiau fe fyddwch yn gweld sawl dwsin yna, yn aml ym mhlith y gwyddau Canada, sydd hefyd yn gartrefol yn y parc. Mae'r ŵydd wyllt (wrth gwrs) yn hoff iawn o'r dŵr, ond yn aml byddwch yn eu gweld ger y llwybr yn pori ar y gwair. Nid yw'r adar yma yn andros o boblogaidd, a gallaf weld pam. Nid ydynt (neu lawer o boblogaethau 'feral' eraill) bellach yn ofni dyn, ac o ganlyniad maent nawr yn fwy na pharod i 'honcian' yn swnllyd atom, mewn cyffro neu mewn rhwystredigaeth - yn enwedig at bobl efo bara! Maent hefyd yn gadael llawer o faw ar y gwair a'r llwybrau. Mae'n hawdd gofyn y cwestiynau: 'Beth yw hanes yr adar 'hanner-gwyllt yma, sydd wedi arwain at boblogaethau fel yr un ym Mharc y Rhath?' neu 'Pam fod plu rhai ohonynt yn rhannol wyn?'. I ateb y cwestiynau yma, mae'n rhaid i ni edrych ganrifoedd yn ôl, at gyfnod pan oedd yr adar yma yn allweddol ar gyfer bywyd bob-dydd cymdeithas.



*Llun: Gethin Jenkins-Jones*

Mae'r ŵydd wyllt wedi bod yn rhan o fioamrywiaeth Prydain am filoedd o flynyddoedd, ond yr adar rydym yn gweld yn ein parciau heddiw yw disgynyddion yr adar domestig cyntaf yng ngorllewin Asia, tua 5000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'n debygol i'r adar yma gael eu cyflwyno i Gymru rai canrifoedd wedyn, a thros y cenedlaethau daethant yn symbol crefyddol i'r Celtiaid. Yn ystod seremonïau, gan amlaf ar ddiwedd mis Medi, roedd yn draddodiad i'r Celtiaid aberthu gŵydd, yn y gobaith y byddai cnwd da y flwyddyn ganlynol.

Dros y canrifoedd wedyn, er y newidiadau anferthol a fu, parhaodd pwysigrwydd yr ŵydd wyllt. Peth cyfleus am yr adar yma oedd y ffaith nad oedd eu deiet (yn bennaf gwair) yn gwrthdaro efo deiet dyn. Cyn y deddfau amgáu tir fferm ddwy ganrif yn ôl, roedd pobl - yn aml merched ifanc - yn bugeilio'r adar yma dros dir nad oedd yn cynhyrchu bwyd i bobl. Defnydd mwyaf amlwg y gwyddau oedd eu cig. Yn hytrach na bwyta twrci ar ddiwrnod Nadolig, gŵydd oedd prif gig y fwydlen. Darganfuwyd bod gan yr adar efo pigmentau gwyn yn eu plu y gallu i fagu mwy o bwysau, felly wrth fridio'r adar dros genedlaethau fe grëwyd yr ŵydd wen sy'n gyfarwydd i ni i gyd heddiw. Casglwyd yr olew ar gyfer lampau, a oedd yn ddefnyddiol cyn trydan, a defnyddid y braster ar gyfer eli meddyginiaethol. Bwytasant yr wyau hefyd, wrth gwrs, yn ogystal â'u defnyddio fel cynhwysyn paent. Defnyddiai artistiaid enwog megis Botticelli a Raphael baent efo melynwy'r ŵydd wyllt.

Roedd eu plu hefyd o ddefnydd mawr; y plu bach ar gyfer clustogau, plu'r adenydd ar gyfer cwils i sgwennu llyfrau a cherddoriaeth, a phlu eraill ar gyfer saethau (a oedd yn hanfodol i saethwyr Cymru ym Mrwydr Agincourt yn 1415). Defnyddid y plu ym myd chwaraeon hefyd. Mae'r gêm badminton yn bodoli heddiw diolch i wyddau, efo plu yr adar yn cael eu defnyddio i greu'r gwenoliaid 'shuttlecocks' cyntaf.

Er yn niwsans i rai heddiw, roedd eu 'honcian' swnllyd hefyd o ddefnydd. Diolch i synau gofid gwyddau garsiwn yn Rhufain wrth weld y Gauls ar fin ymosod, deffrôdd y Rhufeiniaid ac yna llwyddo i gadw'r garsiwn rhag yr ymosodwyr.

Heddiw, nid ydy'r ŵydd wyllt mor bwysig i gymdeithas, ac y mae'r mwyafrif o'r rhai 'hanner gwyllt' sydd yn ein plith heddiw (ac eithrio yng ngogledd yr Alban) yn ddisgynyddion i wyddau'r fferm o amser maith yn ôl. Ond mae'r aderyn yma yn haeddu ein parch o feddwl pa mor bwysig yr oedd i gymdeithasau gorllewin am gyfnod mor hir. O bosib, hebddynt, byddai hanes, ac felly ein bywydau presennol, yn wahanol iawn.

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024

## Eisteddfod lwyddiannus arall

Diolch i bawb ddaeth i gystadlu ac i gefnogi Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024 nôl ym mis Ionawr. Roedd hi'n noson lwyddiannus, gyda channoedd yn cystadlu, a theilyngdod ym mhob cystadleuaeth. Gallwch weld rhestr lawn o'r enillwyr gan gynnwys y darnau llawn ar wefan yr eisteddfod www.eisteddfodcaerdydd.cymru. Ceir detholiad o'r darnau yma. Mae lluniau o'r noson ar gyfrifon cymdeithasol yr eisteddfod, chwiliwch am Eisteddfod Caerdydd.

### Y Gadair — Detholiad o 'Chwilio' gan Christine James

**Mam**
Mae pethau'n dechrau chwarae mig â Mam,
yn symud o'u lle, yn gwrthod
cael eu canfod.

Dyw'r ffôn ddim yn ei chrud,
na'i ffon ar bwys y drws,
ac i ble'n y byd aeth ei sbectol?
Am declyn y teledu, peidiwch holi –
mae wedi diflannu'n llwyr ...

Wrth iddi hwyrhau, mae'n anghofio
am y chwilio, ac yn ffwdanu
ei ffordd trwy'r ffrij am damaid i'w the,
yn shyfflan cynnwys y silffoedd –
a wele'r ffôn yn eiste'n dwt
tu ôl i becyn hanner pwys o gaws
(a hwnnw wedi llwydo'n dost).

Mae'n synnu pan gaf i hyd i'w sbectol
dan y sinc, a llwyddo
i dynnu teclyn y teledu
o ddyfnder cefn y soffa.
Ond dal i gwato'n benderfynol
mae ei ffon –
er imi gyfri'n dawel i ddeg ar ôl deg;
ac wrth gael fy hebrwng
at y drws, a ffarwelio,
teimlaf ei phwysau arna' i'n drwm.

### Y fedal ryddiaith – Detholiad o 'Cyngor' gan Catrin Fflur Huws

Daeth noson y diolchiadau. Diolch i Gwyn. Potel o win a chymeradwyaeth. Diolch i Hywel Roberts. Cymeradwyaeth a gwin, gwin a chymeradwyaeth. Julie a Sara a Mrs Parry-Hughes. Blodau a blodau a blodau a sut mae'r cockatŵ?

Ac.

Yna roedd y bocs yn wag.

Chwech o bobol.

A phum anrheg.

Roedd Gwen druan yn mynd adre yn hollol waglaw.

Dim ond bryd hynny y cwympodd y geiniog, fatha pelen mewn peiriant pinball. Roedd Margaret wedi cynllwynio hyn i gyd, wedi trefnu pob dim fel bod pawb – heblaw Gwen – yn cael diolchiadau. Roedd golwg ddryslyd ar Gwen, fel na pe bai yn llawn ddeall beth roedd hi wedi ei wneud o'i le, a byddai person caletach na Gwen wedi troi ar ei sawdl ac egluro yn syml ac eglur i Margaret lle yn union oedd twll ei thîn, ac i'r gan honno y gallai Margaret sticio ei phwyllgor cyn belled ag yr â.

Mae Gwen yn ffŵl.

Parhaodd i wenu yn frwdfrydig gan dybio rhaid bod camgymeriad wedi bod. Rhyw ddryswch yn y siop flodau. Byddai Margaret neu rywun yn bownd o egluro beth oedd wedi mynd o'i le. Byddai ymddiheuriad. 'Gei di'r blodau rhywdro eto Gwen.'

'Deffra Gwen. Tydi Margaret ddim yn dy hoffi di. Tu ôl i dy gefn mae Margaret yn dy ddynwared di ac yn dy wawdio di. Dyna pam chefaist ti ddim anrheg. Mi gynllwyniodd Margaret hyn i gyd, a thwyllo'r pwyllgor i gytuno.'

Sguthan!



*Catrin Fflur Huws a Christine James*

## Tlws yr Ifanc –
## Detholiad o 'Cysylltiad' gan Ela Pari

Gwyddai Nerys yn well nag i daeru pan byddai Nel yn mynd ar ben rhyw geffyl ffeministaidd. Methu deall oedd Nerys pam bod ei merch mor flin, doedd hi di cael y fagwraeth ora? Roedd Nerys yn byw a bod yn tendian ar ei rhieni yn ei hoed hi, fel yna oedd y byd yn gweithio. Mae hi'n brathu ei thafod, ac yn mynd rownd y bwrdd yn sythu'r cyllyll a ffyrc oedd Nel wedi eu gosod.

"Jest meddwl dy fod di'n haeddu ychydig mwy o help rownd lle 'ma ydw i mam, dyna i gyd. Mae dad adra fwy rŵan wedi'r cyfan, dydi?"

"Pwy wyt ti i bregethu Nel? Ti di bod yn ista ar dy ben ôl drwy'r bora! Rho's saws afal yna mewn dysgl... mi fysa ti'n gallu fy helpu i hefyd!"

"Dwi wedi bod yn helpu, mi o ni wrthi drwy.."

"Mae hwnna llawar rhy fawr, defnyddia'r un uwch ei ben o", mae Nel yn gwneud fel mae ei mham yn ddweud.

"'Nes i ddim stopio efo chdi ddoe mam, sori am fynd i weld fy ffrindiau tra mod i adra! Dy ddewis di ydi slafio yn fama'n ddiddiolch!"

Mae Nel wedi gwylltio rŵan ac mae hi'n gwybod bod ei geiriau yn frwnt, ond mae brandi'r noson gynt yn creu feis rownd ei phen.

"*Alexa*! *Volume* 1! A rhag ofn dy fod di heb sylwi, mae gen ti fab sydd 'di bod ar all-dayer ddoe a dal i chwyrnu'n ei wely."

"Dos di ta, does 'na ddim llawar ar ôl i wneud beth bynnag"

Tydi Nel ddim yn cymryd sylw ac yn parhau i agor bocs o gracyrs M&S a'u gosod, aur ac arian bob yn ail.

"Ti'n 'neud parsnips flwyddyn yma?"

"Yndw, gan gofio amdanyn nhw tro yma de! Ti'n cofio'r flwyddyn 'na?"

"Dyna pam dwi'n gofyn! Dwi ddim isio nhw fynd i wast eto!" Mae ysgwyddau'r ddwy yn ysgwyd bron mewn undod wrth chwerthin, "mi oeddan nhw fatha matchys du doeddan!"


"A dy Nain yn damnio!" Mae'r ddwy yn ei dyblau'n cofio fel oedd mam Nerys yn chwifio lliain wrth y *smoke detector* a phawb arall methu dal eu gwynt. Pwysa'r fam a'r ferch ar y bwrdd yn chwerthin nes i'r distawrwydd ddod rhyngddynt eto.




*Ela Pari*



*Ffotograff buddugol: Gwenno Davies*



*Ffotograff buddugol: Rhodri Davies*



*Ffotograff buddugol: Sioned Thomas*

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod Chwefror, croesawom y Dr Marion Loeffler i'n plith, yn Ddarllenydd mewn Cymraeg a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Dan y teitl 'Y Ferch o'r Dwyrain: O Berlin i Geredigion', cawsom ein tywys ar hyd taith ei bywyd.

Ganed Marion yn Mahlow, ar gyrion Dwyrain Berlin yng Ngweriniaeth Dwyrain yr Almaen gynt. Mae sawl stereoteip o Ddwyrain yr Almaen – blociau o fflatiau hyll, gwifren bigog, ysbïwyr, ceir Trabant, ond cafodd Marion ei magu mewn tŷ tri llawr traddodiadol. Roedd gan ei mam siop flodau, ac roedd athrawon, garddwyr a pheirianwyr yn ei theulu. Cafodd blentyndod hapus. Byddai'r teulu'n treulio'u hamser hamdden yn pysgota yn y llynnoedd a chrwydro'r coedwigoedd ger ei chartref.

Y tro cyntaf iddi brofi'r ochr dywyll yn ei gwlad oedd wrth ymgeisio am brentisiaeth i astudio busnes. Darganfu bod gan y Stasi ffeil amdani, a chafodd ei gwrthod. Aeth i ysgol breswyl ac yna i Brifysgol Humboldt Berlin i astudio Almaeneg, Saesneg – a Chymraeg! Astudiaethau Celtaidd oedd ei chwrs a phenderfynodd ddysgu'r Gymraeg i hwyluso'i hymchwil. Daeth yr Athro Sioned Davies i Ferlin i ddarlithio ar yr adeg honno a chael dylanwad mawr ar Marion a'i dyfodol.




Roedd yr 80au'n gyfnod cyffrous gan arwain at ddymchwel y Mur ym 1989 ac roedd Marion yn weithredol yn y mudiadau a'r gwrthdystiadau mynych. Roedd bellach yn gweithio ar ei PhD ac oherwydd y rhyddid newydd, gallai deithio'n ôl a 'mlaen i Gymru i ymchwilio am y tro cyntaf.

Ym 1994, cafodd swydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a bu'n byw yn Aberystwyth tan 2018, yn magu ei dau blentyn yn y Gymraeg, Saesneg ac Almaeneg. Mae bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn dychwelyd i'r Almaen bob blwyddyn am wyliau teulu.

Yn 2023, gwireddwyd ei breuddwyd pennaf pan gafodd ei hurddo i'r Orsedd yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd – mae'r ferch o Berlin wedi cyrraedd y brig!

*Joy Davies*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun 19 Chwefror cawsom sgwrs a thrafodaeth ddiddorol iawn gan yr Athro Arwyn Tomos Jones o Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Prifysgol Caerdydd ar y testun 'Nanodechnoleg a nanoronynnau: o feddyginiaethau cyffrous i bryderon amgylcheddol'. Yn gyntaf, cawsom ychydig o hanes gyrfa Arwyn, sy'n wreiddiol o Llanrwst, ond wedi mynd i sawl prifysgol gan gynnwys Coventry, Leeds, Coleg Birkbeck Llundain, Lerpwl, Harvard, Heidlberg, Bangor a Chaerdydd.

Nid oes diffiniad cydnabyddedig o nanodechnoleg ond gallwn ddweud ei fod yn ymwneud â ffenomenau sy'n digwydd ar raddfa ychydig o nanometrau sef un mil, miliynfed ran o fetr. Erbyn heddiw mae pob math o feysydd yn defnyddio nanodechnoleg gan gynnwys chwaraeon i wneud batiau pêl fâs, cuddliw milwrol a chydrannau ffonau symudol. Mae nifer fawr o gyfnodolion yn ymdrin â'r maes ac mae miloedd o erthyglau yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Agwedd sy'n datblygu ar hyn o bryd yw defnyddio firysau sydd fel arfer ychydig o ddegau o nanometrau ar draws i hybu system imiwnedd y corff i ymosod ar gelloedd cancr. Dyma sut mae y cyffur herceptin yn gweithio wrth drin cancr y fron. Cafodd y rhan fwyaf ohonom brofiad agos o nanodechnoleg yn ddiweddar iawn am mai hon sydd tu ôl y brechlynnau COVID-19.

Maes arall sydd wedi ymddangos yn ddiweddar yw nanowenwyneg 'nanotoxicology' sy'n ymwneud â pheryglon nanoronynnau. Ceir lot fawr o nanogelwyddau wrth sôn am y rhain ond dim cymaint â'r nanogelwyddau sydd i'w cael ar y rhyngrwyd ym maes y brechlynnau! Wrth i ddeallusrwydd artiffisial dreiddio i mewn i'r maes, gadawodd Arwyn ni gyda phedwar cwestiwn nanodechnolegol i bendroni arnynt. Ydyn ni'n rhy hwyr? Ydy popeth yn iawn? Beth ddylem ni ei wneud? Beth y gallwn ei wneud?

*Rhys Morris*



# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar Nos Lun 19 Chwefror cyflwynodd ein Cadeirydd Shirley Williams ein siaradwr gwadd am y noson sef y Dr Alwyn Humphreys. Dywedodd mai tasg hawdd oedd ei gyflwyno am ei fod yn wyneb mor adnabyddus yng Nghymru a'i gyfraniad i fywyd cerddorol y wlad yn hysbys i bawb. Anogodd bawb i ddarllen ei hunangofiant.

Dewisodd Alwyn ei destun fel "Trysorau" a chyflwynodd i ni rai o'r trysorau nad oeddynt efallai yn werthfawr mewn termau ariannol ond a oedd yn amhrisiadwy iddo ef gan eu bod yn dwyn atgofion melys iddo, naill ai o fywyd yn ei gartref ym Modffordd. Ynys Môn neu yn ystod ei yrfa, yn athro, yn ddarlithydd neu gyda'r BBC. Yn naturiol roedd pob un dewis â blas cerddorol, boed yn berson neu'n ddigwyddiad a hynny mewn sawl gwlad. Aeth â ni ar daith ddifyr i Lerpwl, Bethesda, Awstralia a Seland Newydd, gan ein haddysgu'n gerddorol a chyflwyno ambell i dro trwstan!

Diolchwyd iddo ar ein rhan gan Alun Guy am sgwrs hynod ddifyr ac fe longyfarchodd ef am lwyddo i weu'r straeon, digwyddiadau a'r gerddoriaeth yn un cyfanwaith.

Wrth gloi, cyn i bawb fwynhau paned, diolchodd ein Cadeirydd i Wyn Jones am drefnu ochr dechnegol y noson ac atgoffodd bawb am ein Cinio Gŵyl Dewi ac am ein cyfarfod anffurfiol i fwynhau paned a sgwrs yn Y Deri am 11.00 fore Llun, 18 Mawrth.

*Dilwyn Jones*



*Alwyn Humphreys, Alun Guy a Shirley Williams*

---

# Aelwyd Hamdden

Yng nghyfarfod cyntaf mis Chwefror cafwyd bore cymdeithasol a phawb yn mwynhau paned a chacen a sgwrs.

Ymhen pythefnos cawsom sgwrs ddiddorol gan Gwen Emyr a fu'n athrawes hanes.

Roedd yn ferch i'r Parch J Elwyn Davies a'i briod Mair Eluned Davies. Bu ei thad yn fyfyriwr ym Mangor ac ym 1946 ef oedd arweinydd y mudiad Students' Christian Movement. Roedd yn ymwybodol o'r newyn ym Merlin, a bu'n casglu bwyd a chreu parseli i'w danfon yno.

Un diwrnod aeth i ffermdy yn ardal Caernarfon a chyfarfu â charcharor rhyfel o'r Almaen. Ekkehavd Cockrow oedd ef, a orfodwyd i ymuno â byddin yr Almaen yn 20 oed. Danfonwyd ef i'r Aifft ac yna cafodd ei ddal a'i ddanfon yn garcharor rhyfel i Ganada. Oddi yno cafodd ei roi ar long a'i ddanfon i Lerpwl. Bu ar y Gogarth am gyfnod ac yna aeth i Gaernarfon i weithio ar fferm.

Ym 1947 dychwelodd i Ddwyrain Berlin a gweithiodd i'r Llywodraeth. Roedd Rwsia wedi cau'r ffyrdd, rheilffyrdd a'r gamlas i Orllewin Berlin, a doedd dim bwyd ar gael. Roedd y bobl yn llwgu. Bu'n cydlynu airlift o fis Mehefin 1948 tan fis Medi 1949, er mwyn i Orllewin Berlin gael bwyd. Wedyn daeth yn offeiriad.

Ym 1996 ymddangosodd erthygl mewn papur newydd yn y wlad yma: roedd Ekkehavd am wybodaeth am y Parch J Elwyn Davies. Cysylltwyd y ddau â'i gilydd a daeth Ekkehavd a thri arall draw ac aros yn yr Anglesey Arms gan ymweld â'r fferm yng Nghaernarfon, y castell a'r coleg. Doedd iechyd tad Gwen ddim yn caniatáu iddo fynd i Berlin ond bu Gwen a'i phriod yno a chael croeso mawr.

Diolch i Gwen am sgwrs ddifyr iawn.

*Mair Morgan*



# Siaradwyr Cymraeg Newydd



*Cynhadledd y Papurau Bro*

**Gwilym Dafydd**

### Teithiau Gwylio Adar



Bydd y ffyddloniaid yn cofio'n dda gobeithio – bore Sadwrn cyntaf o'r mis. Bydd y lleoliadau yn siŵr o newid yn ystod 2024 – ond Fferm y Fforest, yr Eglwys Newydd oedd hi ar ddechrau mis Ionawr a Chwefror.

Daeth 14 draw i gyfarfod mis Ionawr. Yn sicr dau o'r uchafbwyntiau oedd gwylio 14 crëyr glas ar un hen goeden lle maen nhw'n ymgynnull ar adegau, a golwg clir ar Mr Glas y Dorlan uwchben y gamlas.

Daeth 11 i gyfarfod mis Chwefror – roedd hi braidd yn wlyb a diflas, fel sawl diwrnod arall ym mis Chwefror eleni. Y gwlypaf erioed yng Nghaerdydd ers dechrau cadw record – dim syndod o gwbl clywed y ffaith hon!

Unwaith cyn dyddiau Covid buom i lawr yn y Bae – dyna sydd i ddigwydd eto ar fore Sadwrn, 2 Mawrth. Gobeithio bydd hi'n sych wrth i bawb gyfarfod y tu allan i adeilad y Pierhead am 10.30 o'r gloch. Tybed pwy fydd yno? Mae wynebau newydd yn ymuno yn gyson – mae croeso cynnes i bawb. Rwy'n rhoi plwg i'r teithiau ar Trydar neu X ar y nos Fercher cyn y bore Sadwrn - @GwilymDafydd. Diolch hefyd i Rachel Menter Iaith am gyhoeddusrwydd ar gyfryngau cymdeithasol y Fenter.

### Papurau Bro – Cynhadledd Blynyddol 2024

Dydd Iau, 22 Chwefror oedd y dyddiad y tro hwn, er mis Mawrth yw hi fel arfer, ac nid yn Llety'r Parc ger Llanbadarn Fawr y tro hwn ond yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth.

Felly aeth Eirian a fi yno i gynrychioli'r *Dinesydd*. Os nad oes aelodau eraill o'r pwyllgor am fanteisio ar y cyfle yna rydym yn ddigon hapus i deithio draw ac aros dros nos am ddwy noson. Dyn ni wedi aros yn Llety'r Parc sawl gwaith erbyn hyn ond dyma ein profiad cyntaf o aros yng Ngwesty'r Marine – ystafell rhif 111 ar y pen ar y llawr cyntaf a golwg gwych o'r tonnau pwerus a gwyntoedd cryfion o brynhawn Mercher tan gadael 10.30 ar fore Gwener.

Mae'n debyg bod tua deugain ohonom yno yn y cyfarfod ar y dydd Iau rhwng 10 a 3.30 o'r gloch. Gwrandawon ni ar sgyrsiau diddorol gan Myfanwy Jones, cyfarwyddwr Mentrau Iaith Cymru; Iestyn Wyn, pennaeth cynllunio ieithyddol Llywodraeth Cymru yn sôn am 'amrywiaeth a chynhwysiant'; Lowri Jones, cylchgrawn *Golwg* yn siarad am 'Eich bro a'r we', a Silvia Rose, PINF – ei maes hi oedd 'Ymgyrch i achub newyddion lleol: dewch i ddysgu mwy am rwydwaith Public Interest News Foundation.'

Cawson ni hefyd sesiynau rhwydweithio gyda phawb yn trafod mewn grwpiau sef 'Heriau ac uchafbwyntiau' rhwng 1.45 a 2.30 yna 'Gwirfoddolwyr y dyfodol' rhwng tua 3 tan 3.30.

Mae'n gyfle blynyddol i dderbyn copïau caled o bapurau bro ardaloedd eraill ac rydw i wedi mwynhau cael golwg ar sawl un ers dychwelyd i Gaerdydd. Medrwch weld cloriau rhai ohonynt yn y llun isod.

Es o amgylch y byrddau yn dosbarthu hen gopïau o'r *Dinesydd*, rhifynnau ers mis Mai llynedd – da nodi bod cynrychiolwyr papurau bro eraill yn hapus iawn i dderbyn copi o bapur bro hynaf Cymru!



# Y DIGWYDDIADUR

## Mawrth

**Sadwrn, 9 Mawrth**
Ysgol Fore Cymdeithas Carnhuanawc am 9.45am yn Ystafell 4, Y Llyfrgell Ganolog ar yr Ais. Siaradwyr: yr Athro Jane Aaron, 'Deffroad y Gymraes yn Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg'; Ian Gwyn Hughes, 'Y Gymdeithas Bêl-droed a'r Gymraeg'; Dr Meg Elis, 'Deiseb Heddwch Merched Cymru'. Tâl cofrestru: £10.00. Manylion pellach: cymcarnhuanawc@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 9 Mawrth**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar y Parch. Emyr James yn trafod dylanwad Cristnogaeth ar Gymru, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 9 Mawrth**
Eisteddfod yr Urdd (Cynradd), Rhanbarth Caerdydd a'r Fro, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (CF14 2JL).

**Mawrth, 12 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Cat Williams ar y testun 'TEN: oriel gelf gyfoes yn hyrwyddo celf Gymreig newydd', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mercher, 13 Mawrth**
Academi Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru (WAVDA), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn perfformio 'Nyrsys' gan Bethan Marlow, yn Haywood House North, Dumfries Place, Caerdydd, CF10 3GA, am 12.30pm a 7.00pm. Tocynnau: £8.00 drwy https://www.ticketsource.co.uk/TSD/

**Iau, 14 Mawrth**
Rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd (Uwchradd), Rhanbarth Caerdydd a'r Fro, yng Nghanolfan y Memo, Y Barri (CF62 8NA), am 2.00pm.

**Iau, 14 Mawrth**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan y Dr Miriam Elin Jones (Prifysgol Abertawe) ar y testun '"Hiraeth Amhosibl?" Ffuglen Wyddonol Islwyn Ffowc Elis'. Drwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 15 Mawrth**
Eisteddfod yr Urdd (Uwchradd), Rhanbarth Caerdydd a'r Fro, yng Nghanolfan y Memo, Y Barri (CF62 8NA), am 9.00am.

**Gwener, 15 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Huw Pryce ar y testun 'Ar drywydd "tynghedfen Cenedl y Cymry": cyd-destunoli *Hanes Cymru* Carnhuanawc (1836–42)', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.15pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk). Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 15 Mawrth**
Noson codi arian i Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. 'Datrys y Dirgelwch'. Bydd actorion o gwmni 'Cwm Ni' (o Gaerffili) yn perfformio o flaen ac ymhlith y gynulleidfa, a gwaith y gynulleidfa fydd dyfalu pwy yw'r llofrudd. Yn Hen Ysgoldy'r Eglwys (sef 'The Old Church Rooms') yn Radur am 7.30pm. Tocynnau: £12 (ar gael gan Allan Cook drwy e-bostio cookatradyr222@gmail.com).

**Llun, 18 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cyfarfod anffurfiol i fwynhau paned a sgwrs yn Y Deri, Rhiwbina, CF14 6UH, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 19 Mawrth**
Menter Caerdydd. Taith dywys y tu ôl i'r llenni yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd yng nghwmni curaduron hanes naturiol, yn dechrau am 10.30am. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 21 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan yr Athro R. Gwynedd Parry ar y testun '"Yn Goron o Wladgarwr": Y Barnwr Gwilym Williams o Feisgyn', yng Nghlwb Rygbi Pentyrch, am 8.00pm. Fe'i trefnir gan Glwb y Dwrlyn. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Iau, 28 Mawrth**
Menter Caerdydd yn cyflwyno 'Laffwyl! Standyp a Laffs!' yn Nhafarn Parc Fictoria (CF5 1JL) am 7.30pm. Manylion pellach a thocynnau: www.mentercaerdydd.cymru

## Ebrill

**Llun, 1 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £28 yr un. Siaradwraig wadd: y Gwir Barchedig Mary Stallard (Esgob Llandaf). Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Paul Morgan, ar 07761-696286 neu cylch.cinio@gmail.com.

**Sadwrn, 6 Ebrill**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com.

**Mawrth, 9 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Ruth Shelley ar y testun 'Profiadau yn Usbecistan', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).


**Mercher, 10 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson yng nghwmni'r Canon Aled Edwards, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Iau, 11 Ebrill**
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd am 6.30pm. Y lleoliad i'w gadarnhau'n derfynol. Croeso i bawb ddod i roi barn. Croeso cynnes i bawb.

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James**
**Manylion tud.2**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



Yr Athro E. Wyn James

**Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 3)**

Sais o Alton yn Hampshire oedd Elijah Waring (1787–1857), a phrin iawn oedd ei Gymraeg er iddo dreulio llawer o'i oes o tua 1811 ymlaen ym Morgannwg. Ym mis Medi 1837, mewn cinio a drefnwyd gan un o gyflogwyr mwyaf y byd ar y pryd – sef Josiah John Guest, perchennog Gwaith Haearn Dowlais – mentrodd Elijah ar ychydig eiriau Cymraeg wrth gynnig llwncdestun i Ivor Bertie, mab bach Josiah John a'i wraig, Charlotte. '*I beg permission*', meddai, '*to try my hand at giving it in the Welsh language*, "Iechyd da i'r Ifor Bach Morganwg."'

Gellid tybio o'r dystiolaeth sydd ar gael mai dyna bron hyd a lled meistrolaeth Elijah Waring o'r Gymraeg. Ond mae'r cyfeiriad at 'Ifor Bach', Arglwydd Senghennydd, a ymosododd yn llwyddiannus ar Gastell Caerdydd yn 1158, yn arwydd o'i ddiddordeb mawr yn hanes a hynafiaethau Cymru. Cymaint, yn wir, oedd diddordeb Elijah yng Nghymru, ei hanes a'i diwylliant, fel y gallai Eben Fardd ddweud mewn cyfres o englynion coffa iddo yn *Y Brython* yn 1860, 'Carodd, anwylodd hen Walia.'

***Iolo Morganwg***



Rhwng Ionawr ac Awst 1813, cyhoeddodd Elijah Waring gylchgrawn misol byrhoedlog yn Abertawe o'r enw *The Cambrian Visitor*, ac mae'r cylchgrawn hwnnw'n dyst iddo ddechrau ymddiddori o ddifrif yng Nghymru, ei thirwedd a'i hanes, yn fuan wedi iddo symud i Forgannwg. Erthygl ar hanes cynnar Cymru yw'r un sy'n agor pob rhifyn ond yr un olaf, ac mae pob rhifyn hefyd yn cynnwys erthygl, 'The Welch Naturalist', am fyd natur a daeareg yng Nghymru, gan ddechrau trwy roi sylw i Forgannwg, '*certainly the most interesting county in Wales*'.

Erbyn haf 1813, roedd Elijah Waring wedi dod i adnabod Iolo Morganwg (Edward Williams, 1747–1826), oherwydd ceir sawl cyfeiriad at Iolo yn rhifyn Awst 1813 o'r *Cambrian Visitor*. Er enghraifft, mewn erthygl ar enwau'r misoedd, dywed 'E. W. S.' (= 'Elijah Waring, Swansea') fod '*the well-known and intelligent Welsh Bard*', Iolo Morganwg, wedi galw heibio iddo'n ddiweddar ac wedi adrodd wrtho enwau hynafiaid y Cymry – yr hen Frytaniaid – ar y misoedd, sef yr un enwau ag yr oedd y Cymry yn parhau i'w defnyddio, meddai Iolo, ac eithrio Ionawr, Mawrth ac Awst, a elwid gan yr hen Frytaniaid yn 'GWYNHYFER, *the white, wild, month*', 'EILIR, *the return of verdure*, or spring', a 'GWENGALEIFION, or GWYNGALEIFION, *the white-stalk month*, probably from corn stalks becoming whitish, in this month'. Hefyd, mewn atodiad yn rhifyn Awst 1813, ceir erthygl sylweddol am hen hanes a hynafiaethau Llanilltud Fawr gan Elijah Waring, a honno'n seiliedig ar lawysgrif a fenthyciwyd iddo gan Iolo Morganwg. A diau fod cariad Elijah at Gymru, ac at Forgannwg yn benodol, yn tarddu'n rhannol o'i gyfeillgarwch â Iolo.

Mae enw Elijah Waring yn gyfarwydd i unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes Iolo Morganwg am iddo gyhoeddi yn 1850 y gyfrol *Recollections and Anecdotes of Edward Williams, the Bard of Glamorgan, or Iolo Morganwg*. Roedd Elijah yn byw yn Clifton ger Bryste ar y pryd, ond nid rhyfedd ei weld yn dychwelyd i ardal Castell-nedd i fyw erbyn 1855 o gofio'r tinc o falchder a glywir yn y ffordd y cyflwynodd ei gyfrol ar Iolo i'w blant – a'r emynyddes, Anna Waring, yn eu plith: '*all natives of Glamorgan*', meddai amdanynt.

Byddai Iolo Morganwg yn galw heibio i gartref Elijah Waring yn bur aml, yn Abertawe i ddechrau ac yna yng Nghastell-nedd o 1814 ymlaen. Yn dilyn marwolaeth Iolo yn 79 oed ym mis Rhagfyr 1826, cyhoeddodd Elijah gyfres o ddeg llythyr ym mhapur newydd *The Cambrian* yn nhri mis cyntaf 1827 yn hel atgofion amdano. Pwyswyd ar Elijah i droi'r llythyrau hynny'n gyfrol gan nifer o bobl, gan gynnwys y bardd Saesneg, Robert Southey (1774–1843), a oedd yn gryn edmygydd o Iolo (ac a oedd, gyda llaw, wedi ystyried ar un adeg sefydlu '*Pantisocracy*' – cymuned iwtopaidd, radical a rhamantaidd – ym mhlasty bach Maes-gwyn ar stad Aberpergwm yng Nghwm Nedd). Roedd Elijah yn amharod i wneud hynny ar y pryd am fod Taliesin, fab Iolo, yn bwriadu llunio cofiant i'w dad. Ond wedi i Taliesin farw yn 1847 heb gyflawni ei fwriad, aeth Elijah ati i lunio ei gyfrol am Iolo a'i chyhoeddi yn 1850.

Fel y soniwyd yn ein herthygl yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd*, gosodwyd yn wynebddarlun ar ddechrau cyfrol 1850 yr engrafiad enwog o Iolo yn eistedd yn ei gadair, yn dweud ei ddweud ac yn dal yn ei law chwith ddarn o bapur ac arno Nod Cyfrin creadigaeth fawr ei ddychymyg, Gorsedd Beirdd Ynys Prydain. Yna, yn union cyn dechrau'r bennod gyntaf, ceir llun adnabyddus arall o Iolo, nid yn eistedd y tro hwn ond yn sefyll yn barod i fynd ar daith, a chanddo lyfr yn ei law chwith a ffon hir yn ei law dde.

Mae'r ddau bortread hynny'n seiliedig ar frasluniau

o Iolo a dynnodd Elijah Waring o'i gof; a thynnu ar ei gof y mae Elijah wrth iddo roi disgrifiad manwl o Iolo'r cerddwr yn ei henaint ym mharagraff agoriadol pennod gyntaf ei gofiant iddo. Mae'n werth dyfynnu rhan o'r paragraff hwnnw, er mwyn rhoi blas ar 'y darlun mewn geiriau' sydd ynddo:

> About thirty years ago, there was often seen, on the highways and bye-ways of Glamorganshire an elderly pedestrian, of rather low stature, wearing his long grey hair flowing over his high coat-collar […]. His countenance was marked by a combination of quiet intelligence, and quick sensitiveness; the features angular, the lines deep, and the grey eye benevolent but highly excitable. He was clad in rustic garb; the coat blue, with goodly brass buttons […]. He wore buckles in his shoes, and a pair of remarkably stout well-set legs, were vouchers for the great peripatetic powers he was well known to possess. A pair of canvas wallets were slung over his shoulders […]. These contained a change of linen, and a few books and papers […]. He generally read as he walked, 'with spectacles on nose,' and a pencil in his hand […]

Mae cofiant Elijah Waring i Iolo Morganwg yn gyfrol werthfawr mewn sawl ffordd, nid lleiaf am ei bod yn rhoi inni bortread o Iolo yn ei hen ddyddiau trwy lygaid cyfaill agos ac edmygydd, ac am ei bod yn dangos (meddai'r Athro Griffith John Williams yn ei gofiant yntau i Iolo yn 1956) 'y modd y byddai [Iolo'n] peri i bawb bron, gwrêng a bonedd, edrych arno fel gŵr o athrylith, gŵr tlawd, gonest, gelyn pob ffug, a ymladdai yn erbyn pob rhyw ormes mewn byd ac eglwys'.

Pan fydd Elijah yn tynnu ar ei atgofion ef ei hun am '*the Bard*' (fel y mae'n cyfeirio'n fynych at Iolo), mae'r cofiant yn ffynhonnell bwysig am Iolo, ei arferion a'i ddiddordebau. Dysgwn, er enghraifft, oddi wrth Elijah fod Iolo yn yfed galwyni o de ac mai bara menyn oedd ei brif gynhaliaeth o ran bwyd. Torth o fara a roddai Iolo yn ymborth i'w geffyl pan fyddai'n dilyn ei feistr, mor bell â Chaerdydd weithiau; ond cerdded yn ymyl ei geffyl a wnâi Iolo, am ei fod yn gwrthod marchogaeth ond yn mynnu cerdded i bob man. Cysgu mewn cadair freichiau a wnâi Iolo, yn hytrach nag mewn gwely, meddai Elijah; ac am ei ddoniau cerddorol, dywed fod gan Iolo '*a nice ear for music, though not a tuneful voice*'. Fel sgwrsiwr, wedyn, tystia fod Iolo yn '*not easily exhausted, and often extremely entertaining*', a'i fod yn hynod wybodus am bynciau dirif. Ac un o'r troeon olaf i Iolo ymweld ag Elijah yng Nghastell-nedd oedd pan oedd ar ei ffordd i gyfarfod ag Esgob Burgess ym Mhlas Abergwili. Roedd wedi prynu dillad crand ar gyfer yr achlysur, a'i got yn '*fit for an admiral, with gilt buttons*', meddai Elijah.

Ond mater arall yw hi yn achos yr hanesion yn y gyfrol yr oedd Iolo wedi eu hadrodd wrth Elijah. Fel y nodais wrth drafod un o gerddi Iolo mewn erthygl yn rhifyn Ebrill 2021 o'r *Dinesydd* (erthygl sydd i'w chael yn electronig ar http://dinesydd.cymru/teithiau/), er bod hedyn o wirionedd yn achos llawer o'r pethau yr honnai Iolo amdano ef ei hun ac am hanes a diwylliant Cymru, rhaid cymryd popeth a ddywed â phinsied go fawr o halen, am fod Iolo yn gyson yn rhoi rhaff fawr i'w ddychymyg. Ac oherwydd hynny, er y gall G. J. Williams ddweud na chafodd yr un llenor Cymraeg yn y 19eg ganrif gofiant 'mwy difyr a darllenadwy' na chofiant Elijah i Iolo, gall ddweud hefyd amdano, mai dyma 'un o'r cofiannau mwyaf camarweiniol a gyhoeddwyd erioed'!

Ond nid ei gofiant i Iolo oedd unig gyfraniad Elijah Waring i lenyddiaeth Cymru…

(*I'w barhau*)

# Codi arian i Eisteddfod Rhondda Cynon Taf!

Fel y gwyddoch, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Rhondda Cynon Taf ym mis Awst, 2024. Fe fydd yr ŵyl yn cael ei chynnal ym Mharc Ynys Angharad - ac mae'n siŵr o fod yn achlysur penigamp!

Pan ddaeth yr Eisteddfod i Gaerdydd yn 2018, aeth nifer ohonom o Radur a Threforgan ati i godi arian ar gyfer yr ŵyl. Codwyd dros £30,000 mewn dim o amser - ac fe gafwyd llawer o hwyl wrth wneud hynny.

Gan fod Eisteddfod 2024 ar ein stepen drws, fe benderfynwyd mai braf fyddai codi arian unwaith eto. Rydym, felly, yn anelu at godi £2,000 cyn mis Awst.

Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi trefnu dau ddigwyddiad bach digon difyr!

Bydd y cyntaf i'w gynnal am 7.30pm ar nos Wener, 15 Mawrth, yn Hen Ysgoldy'r Eglwys yn Radur (sef The Old Church Rooms). *Datrys y Dirgelwch* yw enw'r digwyddiad, sef Murder Mystery! Fe fydd actorion o gwmni Cwm Ni (o Gaerffili) yn perfformio o flaen ac ymhlith y gynulleidfa. Fe glywn fod llofruddiaeth wedi digwydd, a gwaith y gynulleidfa, wedyn, fydd dyfalu pwy yw'r llofrudd. Fe fydd ambell i gliw i'w ddarganfod yn ystod y perfformiad, ac fe fydd modd i chi holi'r actorion ar ôl y ddrama, er mwyn dod o hyd i fwy o gliwiau.

Bydd diod a nibbles ar gael a gwobr i'r tîm buddugol. Cost y tocyn fydd £12 ar gael oddi wrth Allan Cook (gweler isod).

Yna, ar 12 Ebrill, fe fyddwn yn croesawu dau berson o Rhondda Cynon Taf sydd wedi gwneud cymaint dros y Gymraeg: Rhuanedd Richards (Cyfarwyddwr BBC Cymru a, chyn hynny, SpAd Alun Ffred (hy, cynghorydd arbennig) adeg cyflwyno'r Mesur Iaith i'r Senedd - a llawer mwy) a Cennard Davies. Brodor o Dreorci yw Cennard a fu'n Bennaeth Adran Ieithoedd Prifysgol Morgannwg. Mae ei gyfraniad yn ddarlithydd, yn diwtor ac yn awdur ym maes addysgu a'r Gymraeg wedi bod yn bellgyrhaeddol.

Fe fydd y ddau yn cael eu holi gan Cyril Jones ac fe fydd, wrth gwrs, cyfle i chi eu holi hefyd.

Fe fydd y digwyddiad yn cychwyn am 7.30pm yn Hen Ysgoldy'r Eglwys, Radur. Y gost fydd £10. Ac, wrth gwrs, fe fydd diod a nibbles ar gael.

Mae'r tocynnau ar gael drwy e-bostio cookatradyr222@gmail.com.

*Huw Onllwyn*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS MINNY STREET

ww.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parch. Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Ein Gweinidog fydd yn arwain yr oedfaon ar 3 a 10 Mawrth, oedfa'r hwyr ar 17 Mawrth ac oedfaon Sul y Pasg (31 Mawrth). Ni fydd oedfa ym Minny Street fore Sul, 17 Mawrth pan fydd CyfUNdeb II yn cael ei gynnal yng Nghanolfan yr Urdd yn y Bae. Cynhelir oedfaon cymun nos Sul, 3 Mawrth ac ar Sul y Pasg (bore). Byddwn yn croesawu ein cyd-aelod y Dr Hefin Jones i arwain yr addoliad fore Sul y Blodau (24 Mawrth). Ymunwn yng Ngŵyl Bregethu Eglwys y Tabernacl yn yr hwyr. Yn ystod oedfa foreol 3 Mawrth bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod ac am 17:00 y bydd PIMS yn dod ynghyd.

**Gweithgarwch y mis**

Cynigir sawl cyfarfod difyr yn ystod y mis. Cynhelir y cyfarfodydd Ramadan ac Ymprydio, a Bara a Brad yn y festri nos Lun, 11 Mawrth a nos Iau, 28 Mawrth (19:00). Bydd dau gyfarfod o Bethania (12 ac 19 Mawrth am 19:00) yng nghartref aelod. Bydd y Gymdeithas yn croesawu Geraint Lewis i drafod cerddoriaeth glasurol Cymru nos Fawrth, 5 Mawrth (19:30) a byddwn yn edrych ymlaen at gael cwmni y Dr Angharad Wyn yn westai yng Nghinio'r Gymdeithas nos Fawrth, 26 Mawrth (19:00). Bydd cyfleoedd eraill i gymdeithasu ar deithiau cerdded wythnosol, dros baned mewn bore coffi ac yn sesiwn Koinônia 17 Mawrth (19:30).

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Tomos Crawford Wilkins Smith, mab i Owain a Laura, ac i Neli Meillionen Awen Cooper, merch i Tanwen ac Ollie. Dymuniadau da i'r ddau teulu.

## EBENESER

**Colled arall**

Collodd Ebeneser un arall o'n haelodau ffyddlonaf, oedd yn annwyl iawn i ni fel teulu Ebeneser, sef Melora Parry, yn 95 mlwydd oed. Pob cydymdeimlad ag Alun, ei mab, a Non ei nith, a'i holl deulu a ffrindiau. Cynhaliwyd angladd a gwasanaeth i ddathlu ei bywyd yng Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Draenen Pen-y-graig ar 4 Mawrth. Coffa da amdani.

**Cleifion**

Cofiwn am ein haelodau sydd yn derbyn triniaethau ar hyn o bryd sef Annick Moseley a Helen Hilling. Cofiwn hefyd am ein cyd-aelodau sydd mewn cartrefi gofal neu yn gaeth i'w cartrefi sef Rosaline Bowen, Delor Wedlake, Rhiannon Jones a Mair Evans.

**Gwasanaethau**

Cynhelir oedfa bore anffurfiol yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD am 10:00. Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA am 3:00 y pnawn.

Cynhelir Angor ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis yn y Reach Centre, Avondale Street, Grangetown CF11 7DT am 4:30 y prynhawn. Bob nos Lun am 7.30 pm, cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom.

**Pregethau**

Os hoffech wrando ar bregethau Ebeneser maen nhw ar wefan Soundcloud.com Maen nhw'n cael eu gosod yno'n wythnosol. Chwiliwch am Ebeneser Caerdydd.

## EGLWYS DEWI SANT

**Datganiad Organ**

Cynhaliwyd datganiad organ awr ginio yn yr eglwys o dan nawdd Cardiff Organ Events ddydd Gwener, 9 Chwefror. David Geoffrey Thomas (Eglwys Gadeiriol Llandaf) oedd y datgeinydd.

**Dewch i Ganu**

Yn yr eglwys ddydd Sadwrn, 10 Chwefror cynhaliwyd 'Dewch i Ganu Clasuron Corawl' gyda Chôr Siambr Cantemus. Huw Williams oedd yr arweinydd a Jeff Howard oedd yn cyfeilio. Roedd y rhaglen yn cynnwys 'I was Glad' gan Parry, 'Zadok the Priest' gan Handel a rhannau o'r 'Armed Man' gan Karl Jenkins.

**Dydd Mercher y Lludw**

Cynhaliwyd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid ag arnodiad lludw ddydd Mercher, 14 Chwefror.

**Cwmplin yn ystod y Grawys**

Yn ystod y Grawys cynhelir gwasanaeth o gwmplin a myfyrdod byr dros Zoom bob nos Fercher. Bu'r ddau gyntaf ar nosweithiau Mercher, 14 a 21 Chwefror.

**Coffi a Chlonc**

Cafwyd bore dymunol iawn yn y Coffi a Chlonc arferol, ddydd Sadwrn, 17 Chwefror. Cynhelir yr un nesaf ddydd Sadwrn, 16 Mawrth.

**Canolfan Glyd y Tabernacl**

Bu rhai o blwyfolion Eglwys Dewi Sant yn cynorthwyo yn y Tabernacl ddydd Sul, 18 Chwefror. Diolch iddynt.

**Gofal Ein Gwinllan**

Cynhaliwyd sesiwn o'r uchod dros Zoom, ddydd Sadwrn, 24 Chwefror. Bu Robert Rhys yn trafod Nicander - 'Pêr Ganiedydd yr Eglwys yng Nghymru' - a bu Dafydd Glyn Jones yn trafod Owen Wynne Jones (Glasynys) yn fardd, yn gofnodwr llên gwerinol ac yn un o arloeswyr y stori fer Gymraeg.

**Newyddion o'r Ddeoniaeth**

Dymunir pob bendith i'r Parch Siôn Brynach, curad Eglwys Crist, Parc y Rhath, yn sgil ei benodiad yn ficer llawn amser yn Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis diwethaf cawsom gyfle i groesawu'r Parch. Gwilym Wyn Roberts, y Parch. Robin Samuel a'r Parch. Jeff Thomas, ac ar ddau ddydd Sul cawsom gwmni ein gweinidog y Parch. Evan Morgan.

Danfonwn ein cyfarchion at Llinos Howells sydd wedi ymestyn ei harhosiad yn yr Ariannin ac yn parhau i addysgu plant bach yn y Gaiman. Mae'n amlwg wrth ei bodd yno ac yn ymhyfrydu yn y traddodiadau Cymreig sy'n parhau. Mae'r Pasg yn agosáu ac ar yr adeg hon 25 o flynyddoedd yn ôl daeth y Parch. Evan Morgan atom fel gweinidog am y tro cyntaf, wedi cyfnod yn gwasanaethu ym Machynlleth. Mae nifer ohonom yn cofio'r diwrnod y dechreuodd ei waith fel gweinidog ym Methel a mawr oedd ein hapusrwydd wrth groesawu'r dyn ifanc brwdfrydig a hoffus hwn. Diolchwn iddo am ei bregethau ysbrydoledig ar fore Sul ac am ei garedigrwydd a'i gynhesrwydd fel bugail. Edrychwn ymlaen at ddathlu gyda'n gilydd yn ystod yr wythnosau nesaf gan obeithio y cawn gwmni Evan a'i wasanaeth am flynyddoedd eto i ddod.

## YR EGLWYS  EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Christine James ar ennill Cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd eleni. Dymunwn bob bendith hefyd iddi wrth iddi ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Brecwast Merched**

Cynhelir brecwast merched ar drydydd Sadwrn bob mis. Dyma gyfle i rai o'r gwragedd ifanc sy'n gweithio yn ystod yr wythnos, ynghyd â'u plant, ddod at ei gilydd i fwynhau brecwast blasus a chael cymdeithas werthfawr. Mae croeso mawr wrth gwrs i'r gwragedd hŷn hefyd!

Eleni rydym yn edrych ar epistol cyntaf Ioan gyda'n gilydd. Nid pawb sy'n gallu dod bob tro ond mae pawb yn tystio i fudd a bendith y cyfarfod. Mae'r plant wrth eu boddau yn chwarae gyda'i gilydd.

**Brecwast Dynion**

Yn ddiweddar mae'r dynion wedi dilyn esiampl y merched wrth gynnal cyfarfod tebyg yn achlysurol. Y bwriad yw mwynhau a dyfnhau cymdeithas â'i gilydd.

**Bore Siarad Cymraeg**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Mawrth pan fydd Emyr James yn sôn am ddylanwad Cristnogaeth ar hanes ein gwlad. Mae croeso mawr i holl siaradwyr Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch) yn yr Hyb, Pen -y-dre, Rhiwbeina am 10.30am.

**Gwersyll**

Dros hanner tymor aeth criw o'r capel, yn arweinwyr, swyddogion a gwersyllwyr, i Bryn y Groes, y Bala am dridiau o wersyll. Cafodd pawb amser hapus gyda'i gilydd yn gwneud gwahanol weithgareddau a dysgu o'r Beibl.

**Trip i Gaerfaddon**

Un Sadwrn yn ddiweddar aeth rhai o wragedd y capel ar y trên i Gaerfaddon am y dydd. Cawsant amser braf gyda'i gilydd yn mwynhau ychydig o siopa, ymweld â'r abaty a chwrdd â'i gilydd am ginio blasus. Diwrnod gwych!

## SALEM, TREGANNA

Roeddem yn falch iawn o'r fraint o groesawu Lleuwen atom ddydd Sadwrn 24 Chwefror fel rhan o'i thaith *Emynau Coll y Werin*, ac roedd y capel yn llawn. Cafwyd noswaith wirioneddol hyfryd yn ei chwmni, a braf oedd gwrando ar hanesion yr emynau coll, a lleisiau o'r gorffennol. Roedd y gynulleidfa wedi gwirioni ar sain ac awyrgylch y digwyddiad, ac wedi cael eu cyffwrdd ganddo. Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau, ac yn siarad amdano am ddyddiau wedyn.

**Gwasanaethau**

Cofiwch am drefn gwasanaethau'r Sul. Mae oedfa'r bore am 10.30 yn dilyn y patrwm arferol, a bydd patrwm oedfa'r hwyr yn para tan ddiwedd mis Mai.

Nos Sul gyntaf pob mis, ar y cyfan – oedfa arferol yn Salem am 6.00pm dan ofal Evan.

Pob nos Sul arall - oedfa Zoom fer yn dilyn y patrwm a welwyd yn ystod cyfnod COVID.

**Gweithgareddau eraill**

Clwb Brecwast i rieni a phlant/ babanod o dan oed meithrin - bore Mercher 20 Mawrth rhwng 9.45 a 11.15

Bore Golud - cyfle i'r rhai sy'n dioddef o dementia, a'u gofalwyr ac unrhyw un arall, daro i mewn i gwrdd am sgwrs a phaned. Cynhelir y rhai nesaf ar 11 a 25 Mawrth, ac mae croeso i unrhyw un sydd awydd ymuno.

Clwb Coffi – ar fore Gwener rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

Clwb y Bobl Ifanc – unwaith y mis ar nos Wener.

Adran Salem – nos Iau 21 Mawrth rhwng 6.00 a 7.00. Croeso i bawb.

Os hoffech chi gael rhagor o fanylion am ein gweithgareddau neu ein gwasanaethau, beth am ein dilyn ar Facebook, neu ewch i wefan Salem:
http://capelsalem.org



*Lleuwen yn Salem, Trganna*

## TABERNACL, YR AIS

Croesawodd tri o deuluoedd yr eglwys aelodau newydd i'w haelwydydd yn y Flwyddyn Newydd. Llongyfarchiadau i Eluned ac Owen Rook ar enedigaeth eu hwyres Anwen ac i Megan a Wyn Morris wrth groesawu eu hŵyr Gethin. Yna i gwblhau'r triawd, roedd Gwawr a Huw Roberts yn hapus iawn i ddathlu genedigaeth Waldo.

Pleser yw dilyn hynt Noa Evans, un o'n aelodau ifanc, sydd yn aeddfedu ac wedi datblygu yn ddiweddar. Mae eisoes wedi pregethu yn Clapham Junction, Llundain, Bethel, Aberystwyth a Horeb, Penrhyn-coch.

Bu'r Clwb Darllen yn brysur fel arfer. Cyfrol o storïau byrion oedd dan sylw y tro hyn - sef *Porth* gan Luned Aaron. Cyffyrddwyd sawl un gan dynerwch ei phortread o geisiwr lloches feichiog a oedd yn llinyn drwy'r gyfrol.

Newydd da o'r Tabernacl yw bod y capel yn awr yn berchennog ar ddiffibriliwr newydd. Siân Thomas sydd yn gyfrifol am y teclyn a bydd wrth law i ddangos sut i'w defnyddio.

Braint oedd cael datganiad organ ddiwedd mis Ionawr yng nghwmni Jeff Howard. Cawsom awr o gelfyddyd, o gerddoriaeth ac o bleser pur.

Enw newydd ddaeth i ddangos ei ddoniau ar ddechrau mis Chwefror, sef Connor Fogel. Cafwyd perfformiad hyderus a thrawiadol ar y piano gan y cerddor ifanc. Y newyddion da yw'r ffaith ei fod yn awyddus i ddychwelyd i'r Tabernacl yn 2025.

Bydd Côr Heol y March yn cynnal cyngerdd brynhawn Sul, 17 Mawrth, am 4 pm.

Mawr yw'n diolch i'r canlynol am eu parodrwydd i gynnal yr oedfaon yn ystod y mis: ein gweinidog, y Parch. Ddr Rosa Hunt, plant yr Ysgol Sul, Euros Rhys, a'r Parch. Siân Elin Thomas.

## EGLWYS Y CRWYS

Cawsom ddigwyddiadau hynod gofiadwy yn y Crwys yn ystod y mis diwethaf.

Yn gyntaf cawsom y fraint o weld perfformiad gwych o'r ddrama *Grav* gyda phortread byw iawn o'r diweddar Ray Gravell gan Gareth John Bale. Roeddem yn hynod ffodus o gael cyfle i weld y ddrama cyn ei bod yn mynd ar daith i Awstralia. Dymunwn yn dda I Gareth a'r tîm cynhyrchu ar y daith.

Yna daeth y dyn ei hun, Dafydd Iwan, i'n diddanu gyda chân a sgwrs. Roedd y nifer dda a ddaeth ynghyd yn arwydd o'i boblogrwydd ar ôl trigain mlynedd o berfformio. Cafodd y criw o blant wledd I'w gofio a chawsant gyd-ganu 'Yma o Hyd' gyda'u harwr ar y diwedd. Noson arbennig iawn.

Cyn yr oedfa ar nos Sul daeth Côr Aelwyd Ifor Bach i gynnal cyngerdd. Mae'r Côr wedi llwyddo i fod yn rhan o gystadleuaeth Côr Cymru eleni a dymunwn yn dda iddynt. Diolch am egni a brwdfrydedd Eilir Owen Griffiths am arwain grŵp arall o ieuenctid sy'n destun balchder i ni fel cenedl.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)**

Mis Mawrth 2024

1 – Oedfa Dydd Gŵyl Dewi
3 – Oedfa Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul
10 - Gwynfryn Morgan
17 – Sul y CyfUNdeb (Canolfan yr Urdd, Bae Caerdydd)
24 – Oedfa Ardal [dim YS]
29 – Oedfa'r Groglith (am 10:00)
31 – y Parch Aled Edwards [dim YS]

Bydd llawer ohonoch yn cofio hysbyseb Cwmni Esso, o 60au'r ganrif ddiwethaf, oedd yn annog modurwyr i lenwi eu tanciau petrol hefo "teigr" ("Put a tiger in your tank")! Dyma oedd un o ymgyrchoedd marchnata mwyaf poblogaidd ei gyfnod. Bu farw'r teigr olaf a gymerodd ran yn yr ymgyrch hysbysebu, "Tango" (nid "Tony"), yn 2016.

Ond llew, nid teigr, sydd wedi mynnu'r sylw diweddaraf yn y byd hysbysebu.

Cyhoeddodd cwmni Lyle eu bod am newid llun y llew marw sydd ar eu cynnyrch 'golden syrup,' gan roi llun anifail hapusach na'r hen greadur hwnnw oedd yn pydru ac yn llawn gwenyn yn hofran o'i gwmpas – delwedd ddi-dor ers 1883. Cynllun Albanwr o'r enw Abraham Lyle, oedd hwn, ac 'roedd iddo arwyddocâd Cristnogol. Yn Llyfr y Barnwyr (Pennod 14 – "Samson yn Priodi") fe sonnir am Samson yn lladd llew ifanc oedd wedi ymosod arno "gyda dim ond nerth braich". Dychwelodd i'r fan ymhen ychydig – "cafodd fod haid o wenyn yn byw yn sgerbwd yr anifail a bod mêl ynddo." Bwytaodd beth, a rhoi peth i'w rieni.

Yn y parti priodas a ddilynodd, gosododd Samson bôs i rai o'r gwesteion, a'i siarsio i'w ddatrys o fewn yr wythnos – "Daeth bwyd o'r bwytäwr, rhywbeth melys o'r un cryf".

Fersiwn o hwn a ddewisodd Lyle ar gyfer y tin surop, gyda'r geiriau Saesneg "Out of the strong came forth sweetness" mewn print mân oddi dan lun y llew a'r gwenyn.

Oes tun gennych yn y pantri?

## BETHEL, PENARTH

Agorwyd Suliau y mis bach yng nghwmni ein gweinidog ar y 4ydd. Dewisodd yr hanes am dröedigaeth Saul (Actau 9, 1 – 9) yn sail i'w thema, sef, bod yr Efengyl yn efengyl yr ail gyfle. Gydag amryw enghreifftiau drwy'r Beibl o gymeriadau sy wedi elwa o'r ail gyfle i weddnewid eu bywydau, pwysodd Kevin arnom i beidio â digalonni yn wyneb anawsterau, ond i ystyried yn ddwys bob ail gyfle.

Ar y 11eg, tywysodd Siân Meinir ni, gyda chymorth llun a darnau cerddorol, i bwyso a mesur llinellau emyn 793, sy'n rhestru deisyfiadau gyda'r bonyn, 'Duw fo yn fy … mhen/siarad/nirnad (enghreifftiau)'.

Ar noson y 13eg cawsom flasu crempog yng ngofal hynaws Emma; hyn yn agor myfyrdodau Tymor y Grawys. Aeth y gwerthfawrogiad ariannol, sylweddol at ein helusen eleni, Côr Forget-me-not.

Ar Sul y 18fed bu'r Parch. Gwilym Wyn Roberts yn ein hatgoffa o hanes Sacheus, ond nid er mwyn manylu ar yr hanes cyfarwydd hwnnw, ond yn hytrach fel enghraifft o nifer o gyfleodd a gymerodd Iesu i godi sgwrs gyda'r gwrthodedig, i agor drws gwahoddiad i'r dieithr a'r gwahanol. Yr her i ni, wrth gwrs, oedd 'Dos a gwna dithau yr un modd'.

Dydd Gwener y 23ain oedd tro Bethel, gydag eglwys arall, i ddarparu cinio Grawys er budd Cymorth Cristnogol. Yr ariannol a'r cymdeithasol yn codi calon.

Ar Sul ola'r mis bach cawsom gwmni'r Parch Owain Llŷr Evans. Pwyslais ei thema oedd 'Prydferthwch Cred a Ffydd' gan ein hannog i geisio canfod cyflawnder y prydferthwch, nid y darnau dymunol yn unig. Cyfeiriwyd at yr emyn Saesneg cyfarwydd, poblogaidd, 'All things bright and beautiful' ond nid pawb ohonom sy'n fodlon ar fersiwn arall, sef, 'All things dull and ug-ly' (Monty Python). Rhaid bod yn onest ac yn aeddfed wrth ystyried y darlun cyflawn.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi gydag Offeren yn Eglwys Teilo Sant a chroesawyd ffrindiau o'r Eglwysi eraill yn y ddinas eleni eto.

Llongyfarchiadau i Patrick a Carys ar dderbyn Bendith arbennig gan y Pab ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt.

Pen-blwydd hapus i Anne ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Pan ddechreuodd yr Archesgob Mark O'Toole ar ei weinidogaeth yn Archesgobaeth Caerdydd, daeth hefyd yn Esgob Mynyw, Mae e wedi treulio'r cyfnod cyntaf hwn yn ymweld â phlwyfi ledled yr ardal eang hon, gan ddod i adnabod yr offeiriaid a'r ffyddloniaid dros Dde Cymru gyfan.

Yn awr, mae'r Archesgob Mark wedi cyhoeddi ei bod yn bryd edrych eto ar drefniadau'r ddwy esgobaeth ac ystyried y ffordd ymlaen. Felly mae wedi galw cyfres o gyfarfodydd ymhob deoniaeth, gan wahodd lleygwyr ac offeiriaid i wrando a thrafod, mynegi barn ar y sefyllfa bresennol ac ystyried y ffordd ymlaen. Yng nghanol mis Chwefror, cafodd pobl ardal y Cymoedd a'r Fro ddau gyfle i ddod ynghyd i glywed yr Archesgob yn esbonio pam bod yn rhaid meddwl eto am y ddwy esgobaeth ac i fynegi barn ar beth fyddai orau i'r dyfodol. Cafwyd trafodaeth fywiog a'r Archesgob yn gwrando'n ofalus ar yr hyn a fynegwyd ar y diwedd. Bydd y sesiynau hyn yn parhau tan fis Mai ar draws y ddwy esgobaeth. Gweddïwn y bydd yr Ysbryd yn gwmni iddo yn ei benderfyniadau er lles y Ffydd yn y rhan helaeth hon o Gymru.

Offeren Sul y Blodau: 24 Mawrth, 4 30pm gyda phaned i ddilyn. Fydd dim Offeren ar Sul y Pasg, 31 Mawrth.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

# Pobol y Rhigwm

Mae'r Pasg yn gymharol gynnar, 'leni – wel, fe fydd e drosodd cyn mis Ebrill, beth bynnag. Dyna oedd fy nghymhelliant dros ofyn i'r rhigymwyr sgrifennu englyn neu driban am y Pasg cyfoes y mis hwn, ac mae pob un o'r pum ymgais a ddaeth i fewnflwch y beirniad wedi ateb y galw'n ddigon deheuig. Yn sicr, maen nhw i gyd yn haeddu cael eu gweld. Tri englyn a dau driban a ddaeth i law, a rhaid sôn o'r cychwyn bod y fydryddiaeth a'r gynghanedd yn gwbwl gywir ym mhob achos. Ar fy nghyffes fy hun, fe fydda i'n ddigon llym ar gynigion i'r golofn hon sy ddim yn cadw at ofynion mydryddol – rhoi clod lle mae'n ddyledus, felly. Dyma'r ddau a ddaeth yn agos ati:

Bedd gwag, nid yw'n ddigon ragor – a drain
Yn drwch lle bu allor:
Heddiw heb r'un egwyddor –
Wnawn hel dan rwbel yr Iôr.
*Caewr Capel*

Mae gan Geraint Roberts linell ragorol yng nghyd-destun cynulleidfaoedd capeli yn mynd ar drai, sef 'un yn llai o'r cyn lleied'. Dyna'r union deimlad a gawn yma gan *Caewr Capel*. Mae 'drain' yn adlais gynnil, effeithiol o'r goron ddrain, gan ei wneud, felly, yn englyn testunol. Teimlais, rywsut, bod y gynghanedd yn cael y trechaf ar yr ystyr yn y llinell glo, er bod honno'n gynghanedd Sain fedrus. At hynny, 'rhagor' fyddai'n gystrawennol gywir yn y llinell gyntaf (gyda choma ar ôl 'ddigon'), a 'gwnawn' ar ddechrau'r llinell glo – ond nid yw'r un o'r gwallau hynny'n sathru ar y gynghanedd. At ei gilydd, englyn meddylgar, cywir sy'n llifo, da iawn.

Ein Hiesu fu'n arloeswr – ond eto
Daw ato ryw fradwr:
Wy siocled – heb Waredwr,
Yw ein gŵyl nid gwyrth y Gŵr.
*Jiwdas*

Braidd yn amlwg yw'r ffugenw hwn, mae 'bradwr' yn yr englyn yn fwy nag awgrymu pa un o ffigurau gardd Gethsemane sydd o dan sylw yma. Fodd bynnag, mae'n englyn clyfar, achos materoliaeth yr oes sydd ohoni sy'n bradychu ystyr ddwys y Pasg i Gristnogion, erbyn hyn, ac mae hynny wedi'i weithio'n llwyddiannus. Mae 'ryw' yn fy nharo fel gair llanw at ddibenion cyfri sillafau yn yr ail linell. At hynny, er bod hawl cael dau air sy'n odli i ffurfio'r gyfatebiaeth rhwng y cyrch a'r ail linell (gan nad yw'n amharu ar y brifodl), mae'n bell o fod yn gain! Y drydedd linell yw'r un orau, dyma linell wreiddiol ond diamser, hefyd, sy'n crynhoi'r Pasg sydd ohono mewn saith sill, ac sy'n brawf bod yna rinweddau diamheuol i'r gynghanedd Lusg.

Dyma sut mae'r podiwm yn edrych y tro hwn:-

Ar ôl i Iesu ddangos
ei greithiau, credodd Tomos,
ond beth yw'r sail sy'n cynnal cred
mewn siocled am bythefnos?
*Amheuwr*

Triban llyfn ac uniongyrchol a gafwyd gan *Amheuwr*, ond mae'n llawn sylwedd, hefyd. Dyna yw ei lwyddiant. Mae hanes Tomos ('yr amheuwr') yn adnabyddus iawn, a dyna gysylltu hynny â'n 'cred mewn siocled' dros y Pasg cyfoes. Does dim angen unrhyw dystiolaeth arnom ni ddyddie hyn wrth gwrs, i gyfiawnhau ein gloddesta! I hollti blew go iawn, i fi, bydde 'sail dros gynnal cred' yn fwy esmwyth fel ymadrodd. Mân-feirniadaeth yw honno, mewn triban saff ei fydryddiaeth, a gwreiddiol ei syniad.

I greu hwyl, osgoir hoelen; saernïa
saer newydd gwningen.
I greu sbri, wya'r groes bren;
gwawdia'r gwaed ar y goeden.
*Kyrie Eleison*

Dyma englyn ardderchog, sy'n cloi gyda chwip o linell Groes o gyswllt gymhleth. Mae bob llinell – bob trawiad, mwy neu lai – yn gyferbyniad enbyd rhwng y Pasg Cristnogol a'r Pasg masnachol, cyfoes. Yr 'hwyl' a'r 'hoelen', y 'sbri' a'r 'groes bren', y 'gwawd' a'r 'gwaed'. Mae ôl meddwl ar yr englyn hwn, gan rywun sy'n siŵr iawn o'i grefft. Tybed a fydde 'osgoi'r' (h.y. collnod 'r') wedi bod yn well yn y llinell gynta (am ryw reswm, mae 'osgoir' – er ei fod yn gwbwl gywir, yn gystrawennol – yn eiste fymryn yn anesmwyth mewn cymhariaeth â gweddill yr englyn)? Ni waeth am hynny, mae'n ymgais campus a fyddai wedi cipio'r wobr oni bai am un ymgeisydd arall.

Fe welir llu o groesau
Yn gofnod o'r bywydau
A roddwyd eto dros y wlad
Yn rhad gan feibion mamau.
*Pencoed*

Triban tawel ond hynod ergydiol a gafwyd gan Pencoed. Dyma'r union math o beth ro'n i'n gobeithio amdano yn y gystadleuaeth hon. Sylwer, y testun oedd 'englyn neu driban am y Pasg cyfoes'. Pencoed yw'r unig un wnaeth osgoi'r amlwg, a chyplysu ysbryd ryfelgar yr oes gyda'r adeg bwysicaf yn y calendr Cristnogol. Mae e'n driban rhagorol. Israel a Gaza, Wcráin – mae'r llefydd torcalonnus hyn a welwn ar y newyddion o nos i nos yn frith â beddau – â 'chroesau' – sy'n 'cofnodi' colledion ifainc, di-ben-draw. Y llinell glo – nage, y ddau air olaf sy'n ei wneud mor effeithiol. Mae'r rhain yn feibion i famau, a'r mamau hynny'n aml i'w canfod ym mhoen galar. Yn ôl y pedwar Efengyl, roedd Mair yn bresennol pan groeshoeliwyd ei mab hithau. Rhagorol, Pencoed.

Cystadleuaeth ag iddi nifer cymharol wan o gystadleuwyr oedd hon ond er gwaetha hynny, mae'n dda gyda fi ddweud mai fy mhlesio'n fawr wnaeth sylwedd y casgliad o englynion a thribannau, diolch yn fawr i'r pump.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Chwefror**
**Trefor Jones, Pentre'r Eglwys**

**Cystadleuaeth mis Ebrill**

**Limrig** yn cynnwys y llinell:
**Ar ddiwrnod ffŵl Ebrill eleni**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Mawrth at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

## Edrych ymlaen at y gwanwyn a'r gwyliau!

Wrth i ni edrych ymlaen at y gwanwyn a'r haf, mae'n braf cael cyhoeddi dyddiadau Tafwyl a Gŵyl Fach y Fro 2024. Bydd Ynys y Barri yn llawn bwrlwm ddydd Sadwrn, 18 Mai wrth i bobl o Fro Morgannwg a thu hwnt ymgasglu i fwynhau cerddoriaeth fyw, perfformiadau di-ri a bwydydd blasus. Bydd Tafwyl yn dychwelyd i Barc Bute ar benwythnos 12-14 Gorffennaf gyda digwyddiad newydd, cyffrous ar y nos Wener. Mae dal ychydig o lefydd ar gael ar gyfer stondinwyr ac arlwywyr yn y ddwy ŵyl, felly os ydych yn berchen ar fusnes bach ac eisiau bod yn rhan o'r hwyl, cysylltwch cyn gynted â phosibl! (post@mentercaerdydd.cymru) Byddwn yn cyhoeddi mwy o fanylion wrth i'r amser agosáu.

Yn y cyfamser, dyma gip ar weithgareddau Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg dros yr wythnosau nesaf.

**Ymweliad: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
Faint ydych chi'n gwybod am ffosiliau a dinosoriaid? Ar daith ecsgliwsif y tu ôl i'r llen yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, cawn gyfle i gwrdd â churaduron yn yr adran Hanes Naturiol a chael golwg ar rai o gasgliadau llai cyfarwydd yr Amgueddfa. Bore Mawrth, 19 Mawrth, 10:30-12:30. Am ddim.

**Siaradwyr newydd**
Mae nifer o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill ym mis Mawrth ar gyfer siaradwyr newydd a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae'r digwyddiadau, a drefnir ar y cyd ag Amgueddfa Cymru a Dysgu Cymraeg Caerdydd, yn rhad ac am ddim. Dewch draw i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg.

- Bore Iau, 7 Mawrth (10:00-12:00) – dewch i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru i ddysgu mwy am rai o seintiau Cymru, gan gynnwys Dewi ein nawddsant. Bydd cyfle arbennig i ymweld ag Eglwys Sant Teilo a chlywed ambell stori ddiddorol.
- Prynhawn Sadwrn, 23 Mawrth (14:00-16:30) – gweithgareddau hwyliog i siaradwyr newydd a'u teuluoedd yn Amgueddfa Cymru Caerdydd, gyda chroeso i ddysgwyr o bob lefel a'u plant.
- Dydd Gwener, 22 Mawrth (10:30-11:30) - Bore Coffi i Ddysgwyr ar Zoom, Rachel fydd wrth y llyw wrth i ni edrych ymlaen at y Pasg.

**Laffwyl**
Bachwch eich tocyn ar gyfer ein noson gomedi yn nhafarn Parc Victoria ar ddechrau penwythnos y Pasg. Yn cadw cwmni i Aled Richards bydd Noel James, Priya Hall, Leila Navabi a Dai Rhys Towler! Nos Iau, 28 Mawrth, 19:30. £8.

**Sgwrs y Mis**
Y Dr Miriam Elin Jones o Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe fydd yn ymuno â ni ym mis Mawrth. Bydd ei sgwrs yn cynnig blas ar y flwyddyn 2033 gan drafod sut brofiad yw mentro i bellafion y bydysawd a brwydro yn erbyn celloedd arallfydol… a hynny oll drwy gyfrwng llenyddiaeth. Byddwn yn bwrw golwg ar y nofelau *Wythnos yng Nghymru Fydd* ac *Y Blaned Dirion*, a'r stori fer 'Y Golau Estron,' er mwyn archwilio dylanwad Islwyn Ffowc Elis ar ffuglen wyddonol y Gymraeg. Nos Iau, 14 Mawrth, 19:30 ar Zoom. Am ddim.
Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer oedolion, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Gwyliau'r Pasg – gweithgareddau i blant**
Rydym yn falch o gyhoeddi datblygiad cyffrous yn ein cynllun gofal gyda'r ddarpariaeth yn ymestyn i ddwyrain y ddinas ar gyfer gwyliau'r Pasg. Y tro hwn, cynhelir y cynllun mewn tri lleoliad – Ysgol y Berllan Deg (ail wythnos yn unig), Treganna a Melin Gruffydd. Ni chynhelir sesiynau ar y gwyliau banc. Cofiwch hefyd am ein cynllun chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm. Bydd sesiynau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol gan gynnig cyfle i aelodau ifainc y teulu chwarae a chymdeithasu yn y Gymraeg yn ystod y gwyliau. Am fwy o wybodaeth: https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.org
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost a ffôn: post@mentercaerdydd.cymru a 029 2068 9888



# Treftadaeth chwaraeon ar y maes






Mae chwaraeon wrth galon cymaint o gymunedau Cymru, ac yn enwedig yn y Cymoedd. Dyna pam mae Sporting Heritage CIC eisiau eich gwahodd chi i ymuno â ni ar y Maes eleni i glywed am dreftadaeth chwaraeon gyfoethog Pontypridd a'r cylch.

Rydym ni'n cefnogi cymunedau, clybiau, cynghreiriau, cyrff llywodraethu, amgueddfeydd lleol ac archifdai i wella a chadw eu casgliadau treftadaeth chwaraeon ac i rannu eu straeon am chwaraeon drwy'r oesoedd.

Yn y Maes bydd gynnon ni raglen o sgyrsiau am dreftadaeth chwaraeon RhCT. Er enghraifft, bydd y Dr Andrew Hignell yn siarad am y berthynas rhwng Pontypridd a RhCT â Chlwb Criced Morgannwg; bydd Ifor Pleming yn dweud y stori am focswyrr y Rhondda a fu farw ar y Titanic; a bydd Cymdeithas Dreftadaeth Everton yn dathlu arwr y clwb o'r y 1930au, Benjamin Williams, oedd o Benrhiwceibr yn wreiddiol.

Ond mae gyda ni le yn y rhaglen o hyd. Felly os ydych chi eisiau rhannu eich straeon, ymchwil neu frwdfrydedd dros dreftadaeth chwaraeon RhCT, bydden ni wrth ein boddau i glywed oddi wrthoch chi. Rydym ni'n gallu'ch helpu chi i baratoi'r sgwrs os oes angen hefyd. Felly e-bostiwch fi ar russell@sportingheritage.org.uk.

I ddysgu rhagor am waith Sporting Heritage yng Nghymru ewch i'n gwefan www.sportingheritage.org.uk a chliciwch ar y tab 'Nations', ac yna 'Wales/Cymru'.

Gwela i chi ar y Maes!

Russell Todd, Cydlynydd Cymru
Sporting Heritage CIC, Caerdydd
07749 279481 |
russell@sportingheritage.org.uk

Lluniau:
crys gôl-geidwad Alf Sherwood (o Gwmaman)
siaced Dai Dower o Abercynon

# Colofn Difyrion Digidol

Mae iechyd meddwl yn bwnc perthnasol i bawb ohonom ac mae gofalu am ein hiechyd meddwl yn aruthrol o bwysig er mwyn hybu iechyd a llesiant yn gyffredinol. Ein gwaith ni yn Cymunedau Digidol Cymru yw dangos manteision y byd digidol i hybu iechyd a lles. Un wefan sy'n cyflawni hynny'n dda yw meddwl.org lle ceir cefnogaeth, gwybodaeth a phrofiadau pobl o ran iechyd meddwl – a'r cwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. https://meddwl.org/. Ceir adran o fewn y wefan sy'n rhannu profiadau mewn erthyglau difyr ac addysgiadol; er enghraifft, mae Non Parry o fand poblogaidd Eden wedi ysgrifennu blog dan y teitl 'Heddiw':

> *Nes i gyflwyno'n hun i Meddwl am y tro cyntaf nôl yn mis Mawrth 2018. Roedd y Non yna'n dal i frwydro gorbryder dyddiol, iselder ag odd hi di blino…riiiili wedi blino trio jyst bod yn fi.*

O blith yr eitemau yn yr adran greadigol yw cerdd deimladwy i bobl sy'n ei chael hi'n anodd yn ystod y Nadolig, gan Elin Angharad Davies - 'Mae'n iawn'.

Mae'r adran newyddion yn cynnwys y diweddaraf o ran y digwyddiadau sydd ar y gweill i hybu neu godi arian at gyflyrau iechyd meddwl. Mae'n Stôr o wybodaeth werthfawr tu hwnt yw'r adran ar anhwylderau sy'n mynd at wraidd y gwahanol gyflyrau fel panig, iselder ac anhwylderau bwyta ac ati.

Yn ychwanegol, fe restrir y triniaethau gwahanol sy'n bodoli fel cwnsela Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Therapi Grŵp i gynorthwyo pobl gyda'u hiechyd meddwl. Fe ellir hefyd gysylltu gyda'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y wefan er mwyn rhannu'ch profiadau mewn erthygl.

Gwefan arall sy'n llawn o straeon pobl yn ymwneud ag iechyd meddwl yw Nerth Dy Ben. https://nerthdyben.cymru/

Cafodd Alaw Llwyd Owen sy'n wreiddiol o Landdoged yn sir Conwy ddamwain car ddifrifol yn 2018. Un o'r pethau a benderfynodd Alaw wneud wrth wella o'i hanafiadau oedd sefydlu'r platfform hwn sy'n anelu at "hybu sgwrs a chodi ymwybyddiaeth am nerth y meddwl." Mae'r wefan yn bodoli i "ysbrydoli ein cymunedau i rannu'n cryfderau ac i ddathlu'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw fel unigolion ac fel cymuned."

Mae Nerth Dy Ben yn ymgyrch i "ysbrydoli'n cymuned ac unigolion i rannu'n cryfderau, i gydnabod y petha' dan ni'n gallu eu cyflawni ac i ddathlu'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw."

Ceir dolenni hefyd am wasanaethau cefnogol sy'n cynorthwyo pobl gyda'u hiechyd meddwl.

Mae'r gwefannau hyn yn hanfodol i siaradwyr Cymraeg sy'n teimlo dan straen neu'n pryderu am eu hiechyd meddwl. Mae'n gyfle i rannu profiadau neu ddysgu gan eraill. Felly, ewch da chi i'w gweld!

*Deian ap Rhisiart*

# Bwytai Merch y Ddinas

## Cawlach Go Iawn!



Lowri Haf Cooke

Maddeuwch i mi ffrindiau, dwi dal mewn pêr lesmair, ers gwylio ffilm *The Taste of Things* yng nghanolfan Chapter ddiwedd mis Chwefror. Dyma'r cynhyrchiad mwyaf synhwyrus i mi ei brofi ers amser, wnaeth ysbrydoli pob math o synau! Ebychais mewn pleser a sibrwd yn uchel - fel y rhan fwyaf o aelodau'r gynulleidfa! Mae'n gynhyrchiad ffilm Ffrengig am fwyd, yn bennaf, a'r rôl mae'n chwarae mewn bywyd, a chariad a galar. Mae Juliette Binoche yn chwarae Eugenie, cogyddes o fri mewn cartref gwledig yn Ffrainc y 19eg Ganrif. Mae hi'n cyd-fyw â'i chariad, ac, yn wir, ei chyflogwr, sef bonheddwr o'r enw Dodin. Mae'r ddau yn byw a bod am bob pryd bwyd. Fe'u dilynwn wrth bigo'r cynhwysion o'u gardd lysiau ddelfrydol, cyn ffrio, rhostio a phobi pob tamaid. O frecwast i swper mae pob pryd bwyd iddyn nhw yn wledd chwe chwrs llawn pleser.





Nawr te, gan fod Dodin yn ddyn dylanwadol caiff wahoddiad i fwynhau gwledd ryfeddol gan dywysog o'r Dwyrain Canol. Mae cogydd y tywysog yn rhestru seigiau di-ri, ac mae barn Dodin am y fath oferedd yn ddi-flewyn ar dafod. Ond ag yntau'n fonheddwr rhaid ad-dalu'r ffafr, ac aiff ati i lunio'r fwydlen 'berffaith' ar ei gyfer. Mae ei ffrindiau'n llawn chwilfrydedd; pa seigiau Ffrengig fydd ar gynnig, i arddangos gwir gyfoeth i'r tywysog? Mae'r ateb yn syfrdanol. Un saig yn unig fydd ar y fwydlen; Pot au Feu, sef cawl cig eidion a llysiau.





Dwi'n ffyddiog y gwnewch chi i gyd, ddarllenwyr *Y Dinesydd*, ddeall yn union pa mor bwerus yw'r fath dro yn y gynffon! Oes 'na bryd bwyd mwy gwerthfawr, mwy blasus a chysurlon, na phowlen o gawl cartre i ni'r Cymry? Dyna'r rysáit dwi'n troi ato yn fwy na'r un ganol gaeaf ac yn wythnosau cynta'r gwanwyn. P'un ai toc cyn gêm rygbi, neu wedi diwrnod caled o waith, dyna bryd sy'n taro deuddeg bob tro. Gyda'i arogl 'adre', a'i flas cyfoethog, llawn dyfnder, mae'n goflaid i'r galon o ginio. Fel mae'n digwydd, rydw i a'r artist Aron Evans yn cydweithio ar brosiect bwyd yn Nhrebiwt ar hyn o bryd. Llyfr ryseitiau digidol sydd gan Ysgol Gynradd Hamadryad mewn golwg, i ddathlu aml-ddiwylliannau disgyblion dosbarth Pinwydden. A pha ffordd gwell i gychwyn ein taith rownd y byd na choginio cawl llysieuol gan un o'r disgyblion, Amari – o rysáit gan ei Nain, Shirley. Roedd hi'n bleser i weld y ferch fach yn arwain y torri, y troelli a'r blasu – a chael rhannu hoff saig ei theulu gyda ni i gyd.

Wel, os na chewch chi gyfle i baratoi eich cawl eich hunan ar Ddydd Gŵyl Dewi, mae Canna Deli yn gweini cawl gwych pob dydd o'r flwyddyn! Galwais i mewn yn y caffi ym mis Chwefror i ddymuno pen-blwydd hapus i Tomos a'r tîm, a gymerodd awenau'r caffi flwyddyn yn ôl. Nid peth bach yw goroesi'r flwyddyn gyntaf o redeg busnes ar hyn o bryd, felly da chi, cefnogwch y caffi Cymraeg hollol wych yma. Ac er mai'r 'lobsgóws cig eidion' (o rysáit teulu Tomos, o Lanuwchllyn) yw fy newis arferol i yno, y tro ma, ces i flas ar y burrito Buenos Días ardderchog – tamaid o'r Wladfa, o bosib!

Bwyty arall i mi ei brofi dros yr wythnosau a fu yw tafarn yr Unicorn, rhwng Llaneirwg a Llanedeyrn. Fe gaeodd y dafarn hynafol – sy'n dyddio o'r 17eg ganrif - 'nol yn 2017, gan ail-agor wedi buddsoddiad helaeth rai misoedd yn ôl. Os ydych chi'n tueddu i siopa yn Asda Pontprennau neu Aldi, Waitrose a Lidl Pentwyn byddai'n syniad galw yno am damaid a bach o hanes! Es i yno gyda nhad wedi trip siopa ganol wythnos, ac roedd y ddau ohonom ar ein cythlwng a ffansi cinio. Cawsom groeso cynnes iawn gan Casey o Fryn Pinwydden, a phlatiad o sgod a sglods blasus iawn. Be well ganol gaeaf?!

Ro'n i wedi gobeithio profi bwyty 'platiau bychain'

Mesen yn Rhiwbeina dros y gaeaf, ond all hyd yn oed feirniad bwyty'r *Dinesydd* ddim gloddesta ym mhobman ym mis Chwefror! Dwi'n falch i ddweud fod 'na fwrdd wedi'i archebu ar gyfer dechrau mis Mawrth – cyfres o seigiau, gobeithio, i ddeffro'r gwanwyn! Rhagor am hynny yn rhifyn mis Ebrill gobeithio... efallai y gwela i chi yno?



Ac yn olaf, ond nid leiaf, hoffwn longyfarch Bryn Williams a'i dîm ymroddgar – dan arweiniad y cogydd Julian Biggs – ar gyflawni tipyn o gamp ym Mhenarth. Ddechrau mis Chwefror enillodd bar a bwyty The Touring Club wobr Bib Gourmand gan feirniaid Michelin - mae'n wobr arbennig sy'n cydnabod bwytai o safon sy'n cynnig gwerth am arian. Dim ond pedwar o'r rhain sydd yng Nghymru gyda llaw, gan gynnwys tafarn fwyd ardderchog yr Hare and Hounds yn Aberthin. Y Touring Club hefyd yw ail fwyty Cymreig Bryn Williams, yn sgil llwyddiant parhaol Bryn Williams Porth Eirias ym Mae Colwyn. Yr Hen Printworks yn Aberteifi yw'r pedwerydd Bib Gourmand os hoffech daith i'r Gorllewin – ond sôn am gamp i Fro Morgannwg yn cael hawlio dwy wobr! Llongyfarchiadau wir.

Fel yn achos Deli Canna, ac yn wir, pob bwyty gan Bryn Williams, mae 'na lawer iawn o fanylion Cymreig a Chymraeg i'w mwynhau ar y fwydlen sy'n newid yn gyson. Ar gynnig yno'n ddiweddar, i gyd-fynd â Phencampwriaethau Rygbi Chwe Gwlad, roedd 'na botes cig oen a chennin godigog yr olwg ar eu cyfrif Instagram. Sydd yn flas hynod debyg i gawl, erbyn meddwl... O mam bach, wela i chi yno hefyd felly, yn ystod mis Mawrth!

Deli Canna, 2 Pontcanna Mews, 200 Kings Road, Pontcanna CF11 9DF
The Unicorn, Heol yr Eglwys CF3 6YA; 02920 026946
The Touring Club, 4 Adeiladau Washington, Heol Stanwell, Penarth CF64 2AD
*Gwledd* (Y Lolfa) a *Bwytai Cymru* (Gomer) gan Lowri Haf Cooke ar werth yn y siopau llyfrau.



# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Ym mis Ionawr, bu llawer o ddryswch yn y cyfryngau, gyda nifer o bobl yn meddwl bod yn rhaid iddynt ddatgan pob gwerthiant ar wefannau megis eBay a Vinted ar ei ffurflen dreth, a thalu treth ar eu henillion. Doedd hyn ddim yn gywir. Dyw'r rheolau treth heb newid o ran beth sydd angen cael ei ddatgan i'r Swyddfa Dreth. Mae gan unigolion 'lwfans masnachu' di-dreth o £1,000 felly, fel man cychwyn, os yw'ch enillion blynyddol o werthu eitemau yn llai na £1,000, mae'r incwm yn ddi-dreth.

Ar ben hynny, os nad ydych yn gwerthu eitemau yn rheolaidd neu os nad ydych yn bwriadu gwneud elw o werthu eitemau, mae'n annhebygol y byddwch yn cael eich nodi fel "masnachwr" gan y Swyddfa Dreth ac felly nid yw'r incwm yn drethadwy.

2. Wrth i bobl barhau i gael trafferthion gyda chostau byw, mae llawer wedi penderfynu dechrau derbyn eu pensiwn personol yn gynt. Mae taliadau cyntaf pensiwn personol yn aml yn cael eu trethu ar gyfradd o 40% gan fod y Swyddfa Dreth yn defnyddio cod treth anghywir. Gellir adennill y dreth a ordalwyd drwy lenwi ffurflenni penodol a dylid prosesu'r ad-daliad o fewn 30 diwrnod. Gall yr ad-daliad fod gwerth miloedd o bunnoedd.

**Cwestiynau Huw ac Aled**

*Rwyf wedi bod yn defnyddio 'ap' ar fy ffôn i brynu a gwerthu nifer fach o gyfranddaliadau. Nid wyf yn credu fy mod wedi gwneud unrhyw elw, ond a oes angen i mi ddatgan unrhyw beth i'r Swyddfa Dreth?*

Rydym wedi gweld cynnydd rhyfeddol yn nifer yr unigolion sy'n defnyddio gwefannau ac apiau, fel Trading 212 ac eToro, i brynu a gwerthu cyfranddaliadau ar-lein. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r apiau hyn fel hobi, gan arwain at nifer fach o drafodion bob wythnos. Mae hyn wedi arwain at ddau bwynt sy'n peri pryder i ni:

(i) Buddsoddi: mae nifer o wefannau yn codi ffi am bob trafodyn. Gall unrhyw elw ar fuddsoddiadau bach ddiflannu'n llawn o ganlyniad i'r taliadau hyn. Mae'n bwysig iawn bod pobl yn deall risgiau buddsoddi a'r costau o ddefnyddio'r gwefannau hyn.

(ii) Treth: gall prynu a gwerthu cyfranddaliadau, hyd yn oed ar y raddfa fach hon, greu goblygiadau treth. Yn gyntaf, mae angen datgan unrhyw ddifidendau neu incwm llog ar eich ffurflen dreth, ac yn ail, gall treth ar eiddo ('capital gains tax') fod yn ddyledus ar unrhyw 'elw' o werthu cyfranddaliadau gan fod y lwfans di-dreth ar gyfer treth ar eiddo bellach wedi gostwng i £6,000 ac yn gostwng eto i £3,000 o 6 Ebrill 2024.

Yn olaf, dyw'r rhan fwyaf o'r gwefannau hyn ddim yn darparu datganiad blynyddol sy'n dangos faint o enillion neu golledion a wnaed yn ystod y flwyddyn, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i gyfrifo os oes unrhyw dreth yn ddyledus. Byddwch yn ymwybodol o hyn wrth baratoi eich gwybodaeth treth blynyddol.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd


Cafwyd noson hynod ddiddorol nos Lun 6 Chwefror yn y New House ar Ffordd Caerffili. Daeth dros 50 at ei gilydd i fwynhau pryd blasus iawn gan y gwesty ac yna cyflwyniad gan Mr Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd. Yn frodor o Aberystwyth, ef ydy arweinydd ieuengaf cynghorau Cymru. Cawsom syniad o faint y dasg sydd gan y Cyngor wrth ddarparu, yn llythrennol, cannoedd o wasanaethau i ni drigolion y ddinas. Wrth gwrs soniodd am y wasgfa ariannol sydd yn ein hwynebu - ond ni chawsom wybod ble bydd y fwyell yn cwympo ar wasanaethau nac ychwaith faint fydd y codiad yn nhreth y cyngor! Clywyd am weledigaeth y cyngor i wneud Caerdydd yn ddinas gryfach, decach a gwyrddach. Dyma nodau clodwiw, gobeithio y gwawn ninnau fel unigolion ein gorau i geisio sicrhau bod y nodau yn cael eu gwireddu.


Mae croeso cynnes i chi ddod atom. Cynhelir ein cyfarfod nesa nos Lun 4 Mawrth yng nghwmni yr Athro Emeritws Medwin Hughes. Os am fynychu, cysyllter gyda Paul Morgan ar cylch.cinio@gmail.com.



*Wyn Rees a Huw Thomas*

## Rhif: 240



**Ar Draws**
6. Amser o ddysgu yng nghanol tyllu yn y maes pebyll (7)
7. Mae paned o hwn yn un cerddorol (5)
9. Swnio'n ddiddos a modrwy i gario (5)
10. Sut sled sydd wedi'i wneud yn dwt? (7)
12. 'Ac nid oes gyfaill mewn un man
----- ----- bod' (WW) (7,3'1)
14. Ar flaen y disgo mae'n simsanu (11)
18. Tywydd sych i'm gwlad (3,4)
19. 'Bu'r angylion yma'n tramwy
Ar dy ffyrdd mae ôl eu ----' (DGJ) (5)
21. Barnu'r goleuo (5)
22. 'Dwy neu dair briallen ffel
A ----- bid siŵr' (WCW) (7)

**I Lawr**
1. 'Ymdawelaf, mae ----- Duw ei hun
Danaf ymhob cyffro' (BB) (5)
2. Aderyn costus i'w eni (6)
3. Gweler 15 lawr
4. Dysglau er budd mwy na dau (6)
5. I chwarae yn Rhufain ac yn y Gogledd cefnog (7)
8. Rhywsut plyger pedol a'i wneud yn agored i niwed (7)
11. Copa'r mynydd (3,1,3)
13. Diflas swnio fel merch fach (7)
15 a 3 lawr. 'Mae'n dawel yn awr yn ----- -----
Lle gynt y bum yn dysgu cân y byd' (DI) (6,3)
16. 'Yn dawnsio yn y gwynt a'r glaw
I bibau pêr rhyw ----- cudd' (IDH) (6)
17. Mae niwed yn newid y swynwr (5)
20. Cwch gwael yn Lloegr (3)

**Enillydd Croesair Rhif 238**
**Llinos Griffiths, Penarth**

**Atebion Croesair Rhif 238**

**Ar Draws:** 7. Seleri 8. Rhaglaw 10. Ei gyfer 11. Olwyn 12. Eryr 13. Enaid 17. Pandy 18. Taro 22. Seren 23. Bwndeli 24. Unwaith 25. Gwerin

**I Lawr:** 1. Ysgeler 2. Clogwyn 3. Brefu 4. Nadolig 5. Tlawd 6. Gwenu 9. Crynodebu 14. Cannaid 15. Dadebru 16. Foliant 19. Astud 20 Frawd 21. Cnawd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Ebrill 2024
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Cymrodorion Caerdydd

Nos Wener, 2 Chwefror, trafodwyd 'Sosialwyr Cymraeg Cynnar Caerdydd' gan y Dr Martin Wright, Prifysgol Caerdydd mewn darlith wedi ei seilio ar ei lyfr *Wales and Socialism: Political Culture and National Identity Before the Great War* (Gwasg Prifysgol Caerdydd, 2016). Eglurodd y Dr Wright sut oedd y 1880au yn gyfnod newydd yn hanes radicaliaeth Prydain, oherwydd twf cymdeithasau sosialaidd, megis y Ffederasiwn Cymdeithasol Democrataidd (Social Democratic Federation), Cymdeithas y Ffabiaid (Fabian Society) a'r Cynghrair Sosialaidd (Socialist League).

Canolfan yr 'adfywiad sosialaidd' yma oedd Llundain, ond o ganol y 1880au ymlaen, ymwelodd nifer o arloeswyr sosialaidd â Chymru er mwyn lledaenu eu syniadau. Roedd llawer o Gymry ar y pryd yn gweld y syniadau yma fel rhywbeth estron i Gymru, ond erbyn diwedd y degawd yr oedd grŵp o sosialwyr yng Nghaerdydd, yn trafod a hybu sosialaeth yn y ddinas. Ymhlith y grŵp yma yr oedd sawl Cymro Cymraeg, gan gynnwys y gwas sifil R.E. Thomas a'r meddyg y Dr David Rhys Jones. Trafodwyd sut datblygodd y dynion yma eu cred sosialaidd a oedd yn gymysgedd o'r syniadau newydd o 'sosialaeth wyddonol' â'r hen syniadau a ddatblygwyd yng Nghymru. O ganlyniad, yr oedd Caerdydd yn lle pwysig iawn yn hanes cynnar sosialaeth yn ein gwlad.

Bydd cyfarfod nesaf o Gymrodorion Caerdydd ar 12 Ebrill gyda'r Dr Elin Jones yn trafod 'Dyfed yr Archdderwydd.'

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

Yn ystod mis Mawrth bydd tîm dynion pêl-droed Cymru, gobeithio, yn sicrhau eu lle yng nghystadleuaeth yr Ewros yn Yr Almaen. Ni fydd hynny'n dasg hawdd ond y gobaith yw y bydd cefnogaeth y Wal Goch yn ysbrydoli'r tîm i guro'r Ffindir ar 21 Mawrth ac yna Gwlad Pwyl neu Estonia ar 26 Mawrth.



Dros y blynyddoedd bu twf aruthrol yn natblygiad pêl-droed merched ledled Cymru. Mae Gwynon Williams yn adrodd ar ddatblygiadau diweddaraf Titws Taf sef tîm pêl-droed menywod Cymric,

Ddiwedd mis Ionawr bu Titws Taf Cymric yn cynnal ei sesiwn hyfforddi gyntaf ers sawl mis, gyda "sesiwn flasu" oedd yn rhad ac am ddim er mwyn denu chwaraewyr newydd. Hysbyswyd y sesiwn yn llwyddiannus ar draws y cyfryngau cymdeithasol a mynychodd 19 o fenywod y sesiwn gyntaf. Roedd ambell un heb chwarae pêl-droed o'r blaen ac ambell un arall wedi chwarae yn gystadleuol ar hyd ei hoes – ond doedd hynny ddim yn broblem. Roedd brwdfrydedd amlwg i gefnogi ei gilydd, i wella gyda'i gilydd ac i gael hwyl!

Mae nifer fawr o'r rheini a fynychodd y sesiwn gyntaf wedi dychwelyd i'r sesiynau dilynol – er gwaethaf tywydd garw iawn! Mae yna gyfeillgarwch newydd yn blaguro rhwng y chwaraewyr ac mae mynd i'r bar am beint neu baned ar ôl hyfforddi yn dod yn arfer.

Ar ôl dim ond dwy sesiwn hyfforddi, chwaraeodd y tîm yn ei gem gystadleuol gyntaf ers yr ail-lansiad. Roedd y gêm yn erbyn Clwb Pêl-droed Menywod Llanilltud Fawr yn un hwylus a chystadleuol ac er mai colli oedd hanes y Titws y noson honno roedd hi'n werthfawr dysgu gwersi a'r angen i ymarfer er mwyn gwella. Bonws arall i'r merched oedd cael gwisgo'r cit pinc unwaith eto.

Mae'r Titws yn chwarae yn fisol fel rhan o Gynghrair Hamdden Menywod Caerdydd. Er mwyn dathlu llwyddiant y mis cyntaf bu'r Clwb yn gwylio'r gêm gyfeillgar rhwng Cymru ac Iwerddon gyda'i gilydd ar 27 Chwefror ar ôl ein sesiwn hyfforddi. Mae yna ambell i gynllun cyffrous arall ar y gweill ond am nawr mae'r clwb am barhau i gael sesiynau hyfforddi yn Gôl tair gwaith y mis, a chystadlu yn y gynghrair unwaith y mis.

Gyda nifer o chwaraewyr newydd mae angen mwy o gitiau pinc ar y Tim, felly fe fyddant yn chwilio am noddwyr er mwyn sicrhau hynny yn fuan.

Mae'r clwb yn rhan o glwb ehangach clwb Cymric Caerdydd. Hoffai'r Titws ddiolch i glwb Cymric am ei cefnogaeth yn ystod yr ail-lansiad. Mae'r Titws Taf yn glwb Pêl-droed i Fenywod neu bobl anneuaidd dros ddeunaw oed. Maent bob amser yn croesawu chwaraewyr newydd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â phêl-droed_menywod_Cymric@hotmail.com neu ar Instagram @Titwstafcymric.

## Dydd Miwsig Cymru 2024

Roedd Menter Caerdydd wedi chwarae rhan weithgar, fel y gwelwch o'r lluniau. Er bod Dydd Miwsig Cymru drosodd am flwyddyn arall, mae adnoddau a rhestrau chwarae ar gael drwy gydol y flwyddyn ar y gwefannau gyferbyn.



*Y band ifanc Anhunedd*

Dydd Miwsig Cymru | LLYW.CYMRU
Hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru | LLYW.CYMRU



*Y band Lo-fi Jones ar eu hymweliad â'r Barri*